




Cleddyf y Tywysogion

Mae cleddyf dur 25 troedfedd o uchder wedi ei osod ar lan Llyn Padarn yn Llanberis. Costiodd y cleddyf £14,000, a'r gobaith yw y bydd yn denu mwy o ymwelwyr ac yn atyniad a fydd yn hybu ymwybyddiaeth yn hanes Tywysogion Cymru a'u cysylltiadau a Chastell Dolbadarn.

Gerallt Evans, gôf o Bandy Tudur fu'n gyfrifol am y cleddyf, ac y mae pum troedfedd wedi ei gladdu dan ddaear mewn sylfaen concrit.

Disgyblion Ysgol Dolbadarn (nid Llanbadarn fel y mae'r Daily Post yn mynnu ei galw!) fu'n gyfrifol am enwi'r cleddyf, ac erbyn i chi dderbyn y copi hwn o'r "Eco", bydd yr enw hwnnw'n barod i'w ddatgelu yn y seremoni agoriadol a gynhelir ar 28ain o Dachwedd.

Eisoes bu'r ymateb yn amrywiol, yn enwedig ar safleoedd Facebook, gydag ambell un yn awgrymu y gallai'r cleddyf achosi damweiniau ar y ffordd wrth i yrrwyr fynd heibio – a syllu ar y cleddyf yn hytrach na gwyllo'r goleuadau traffig sy'n union gyferbyn! Amser a ddengys.

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 460
Rhagfyr 2017**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622

ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn

Nadolig/Ionawr

Copi i law

03-Rhagfyr

Bwndelu

15-Rhagfyr

Ble

Llanrug

LLYTHYRAU

Annwyl bentrefwyr,

Dymuna Haf ddiolch i drigolion yr Eco a thu hwnt am eu cefnogaeth iddi gyda'r ymgyrch casglu stampiau. Yn ystod y flwyddyn llwyddodd i gasglu dros 60,000 an godi £1,100 i Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru. Mae'r arian wedi cynorthwyo i helpu plant dall a rhannol ddall, trwy gynnig grantiau ar gyfer offer, a chyfleoedd i deuluoedd rannu gweithgareddau newydd gyda'i gilydd. Diolch o galon.

Annwyl Syr/Madam

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £500 i fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddianus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o'r gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Disgwylir i'r ymgeisydd fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Medwen Charles, Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD.
maes.meini@btinternet.com Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2018.

Gyda diolch,

Yn gywir,

Medwen Charles

Anrheg Nadolig Gwahanol i bawb dan 40 oed

Methu penderfynu beth i'w roi yn anrheg Nadolig (neu'n anrheg penblwydd)?

Beth am rifyn o "Eco'r Wyddfa" ar gyfer y mis y cafodd eich mab, merch, brawd, chwaer, tad, mam, ffrind, cariad eu geni?

Mae'n bosib prynu rhifyn o "Eco'r Wyddfa" o Fawrth 1976

ymlaen – am ddim ond £1 + cludiant

Cysylltwch a Goronwy Hughes (01286 674839)

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

£20.00 Er cof am Mr John Hughes, Preteg, Deiniolen; Haf Thomas, Buarthau, Llanrug; Er cof am y diweddar John Arfon Owen, Cefn Cynrig, Bethel gan y teulu; Er cof am Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen; Er cof am Stanley Jones, 8 Glanffynnon, Llanrug; Er cof am Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd, Waunfawr.

£10.00 Lois Regan, 3 Stryd Newydd, Deiniolen; Katie Williams, Penisarwaun; Mrs Owen a Nefyl, Bryn Gwylan, Waunfawr; Treflyn ac Anne, Treforfan, Waunfawr; Liz a Dei Roberts, Dalar Deg, Bangor.

£5.00 Dafydd ac Ellen, 1 Pentre Helen, Deiniolen; Menna Dauncey, Minawel, Bethel.

Prisiau'r "Eco"

Drwy'r post (Prydain yn unig) £21.00 am flwyddyn

Drwy ebost (rhywle yn y byd) £7.70 am flwyddyn

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD
DDA

Oddiwrth bawb yn
**LONDON
GARAGE**
Cwm-y-glo

MOT, Teiars, Gwasanaeth ac Atgyweirio

Ar agor 9-5 Llun-Gwener
9-1- Sadwm



Ffôn- 870234

Yn ystod y mis aeth heibio

Doedd hyd yn oed trafferthion cytuno ar Brexit ddim yn cael prif sylw'r newyddion oherwydd:

- Sgandal rhyw ym myd ffilmiau a gwleidyddiaeth, a'r honiadau o gamymddwyn yn tyfu fel caseg eira yn ddyddiol. Ymddiswyddodd un aelod o'r Cabinet, ac y mae eraill wedi eu gwahardd dros-dro o'r Chwip. Yma yng Nghymru cyrhaeddodd ben-llanw hynod o frawychus gyda diswyddo Carl Sargeant a'i farwolaeth gynamserol ychydig ddyddiau yn ddiweddarach.

- 'Papurau Paradwys' a rhaglen Panorama yn datgelu faint o gyfoethogion a chwmnïau sy'n osgoi talu treth gan ddefnyddio dulliau hollol gyfreithlon ond hynod anegwyddorol. Galw ar i Brydain dynhau'r rheolau ar rai o'r ynysoedd sy'n gartrefi i hafanau treth, gyda'n cymdogion Ynys Manaw yn un o'r 'pechaduriaid' mwyaf.

Ond roedd digwyddiadau eraill, nes at adra yn haeddu sylw hefyd:

- Mewn wythnos pryd y cyhoeddwyd fod dyled cartrefi ym Mhrydain yn £200 biliwn; yr uchaf ers argyfwng ariannol 2008, adroddwyd mai cyflogau gweithwyr yng Ngwynedd yw'r isaf yng Nghymru – ar gyfartaledd o £421 yr wythnos, a'r trydydd isaf ym Mhrydain gyfan.

- Adroddiadau am fandaliaid yn Llanberis yn difrodi meinciau ac offer yn y cae chwarae ger y 'Landing' ar lan y llyn, ac oblygiadau ariannol y gweithredoedd ar y trethdalwyr, a hynny mewn cyfnod pan fo tynhau a chwtogi cynyddol ar bwrs y wlad. Trist gorfod cofnodi'r fath fandaliaeth a hynny pan fo cymaint o wirfoddolwyr yn gweithio'n ddiwyd i gadw'r pentref yn daclus ac yn gwella'r amgylchedd o fewn y pentref. (gweler newyddion Llanberis ar dudalen 12)

- Rhybuddion gan yr Heddlu am dorri i mewn i gerbydau a dwyn - tref Caernarfon yn arbennig yn cael ei thargedu, ond digwyddiadau tebyg hefyd yn Y Waunfawr a Dinorwig.

- Prifysgol Caergrawnt yn datgan fod ymchwil yn dangos fod defaid yn gallu adnabod wynebau. Anodd dirnad beth yn hollol oedd pwrpas y fath ymchwil, na faint oedd y gost. Tybed a ellir dysgu rhai o ddiadelloedd llethrau'r Wyddfa i 'adnabod' yr ymwelwyr digydwybod sy'n gollwng cymaint o sbwriel ar y mynydd?

- Stoc newydd o dorgochiaid yn cael eu gollwng i Lyn Padarn gan swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru.....

- a hynny yn dilyn dirwyo dau gwmni trydan-dwr am lygru Afon Las ac achosi i'r llygredd hwnnw ddifwyno Llyn Padarn. Cafodd y ddau gwmni ddirwy o gyfanswm o £24,000 (a chostau o £21,700) am weithredu'n anghyfrifol yn ystod mis Mai y llynedd.

Clwb Cinio Arfon

Y newyddiadurwr William Owen, Bangor oedd y gwestai, a chawsom olrhain hanes 'Y Cymro', y papur y bu'n gweithio arno am sawl blwyddyn. Yr oedd y sgwrs yn berthnasol o gofio fod Y Cymro wedi cyhoeddi ei rifyn olaf yn ddiweddar ers ei sefydlu ar ei newydd wedd yn 1932.

Cafwyd braslun gan Wil o hanes cynnar Y Cymro a sefydlwyd yn bapur eglwysig ym Mangor am bris o 3ceiniog yn 1848. Papur dwyieithog oedd. Wedi deng mlynedd anodd ym Mangor, symudwyd i Lundain a'i gyhoeddi gan Ioan Meirion – eto yn eglwysig ei naws. Yna i Dreffynnon dan olygyddiaeth Llew Llwyfo – pris ceiniog. Yna i Ddinbych, a diddymu'r papur yn 1866.

Yn 1891 atgyfodwyd y papur – neu'r teitl yn hytrach, draw yn Lerpwl. Papur Rhyddfrydol ei naws a'i arwyddair: 'Fy ngwlad, fy iaith, fy mhobl'. Colofnydd ardal Yr Wyddgrug oedd Daniel Owen.

Cwmpw eto, cyn ail-godi yn Nolgellau yn 1914. Rhygnu ymlaen, ond y farwol eto yn 1931. I'r adwy camodd Sais o'r enw Robert Thomas a brynodd y teitl am £250.

Yn 1932 dyma ddechrau Y Cymro cyfoes dan olygyddiaeth John Eilian. Er fod gwerthiant o 12,000 yn wythnosol, ar golled y rhedodd y papur am 7 mlynedd. Yna elw o £175. Y digwyddiad tyngedfennol oedd symudiad John Roberts Williams o Gwmni'r Herald yng Nghaernarfon i olygu'r papur yng Nghroesoswallt.

Am ail ran ei sgwrs canolbwyntiodd Wil ar un o brif gyfraniadau John Roberts Williams, sef sefydlu y Cymro Bach; tudalen yn


benodol ar gyfer y plant. Bu yn llwyddiannus iawn yn denu aelodaeth yn ystod llymder y 40/50au. Gosodwyd cystadleuthau ysgrifenedig, ac ymysg yr enillwyr gwelir enwau cyfarwydd fel Dafydd Rowlands, D.Ben Rees, a'r diweddar, athrylithgar John Rowlands, Trawsfynydd. Roedd Y Cymro Bach mor llwyddiannus fel y cyhoeddwyd pedair tudalen wahanol yn wythnosol ar gyfer Mon, Arfon, Croesoswallt a Gweddill Cymru. Mewn cyfnod o 6 mis ymaelododd 500 o blant yn Arfon yn unig. Aelod rhif 200 y cyfnod hwnnw oedd Gwyn Hefin Jones, Llanberis. Erbyn 1958 roedd Clwb Plant y Cymro yn un, a'r un oedd yn cydlynnu'r cyfan – nas enwyd – oedd Dewyth Tom.

Yn 1968 bu i Dewy'th Tom ymddeol, a William Owen lanwodd y bwlch, yn gyfrifol am dudalen y plant. Rhwng 1968 a 1978 gwelwyd enwau cyfarwydd yn ennill y gwobrau – Sian Parri Huws, Caru=yl Parry Jones, Betsan Powys, Modlen Lynch, Huw Erith a Sian Lloyd. Roedd y gwerthiant erbyn hyn tua 7,000 copi yr wythnos.

Daeth Clwb y Plant i ben ar ddechrau'r 1990'au a symudodd Wil at y BBC, ac yna i weithio ar y gyfres hynod boblogaidd Hel Straeon.

Ar adeg dirwyn Y Cymro i ben roedd y gwerthiant yn 2,000 copi yr wythnos.

Y mis nesaf y gwestai fydd yr amryddawn Gwyneth Glyn. Fel y gwelwch mae amrywiaeth diddorol o sgysiau – a bwyd – i'w gael. Pam na wnewch ymaelodi? Bydd croeso cynnes yn eich aros.



Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX **01248670833 • 07801346652**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth barwb yn
Sychlanhau
Altro
Ailwnïo
54 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: **870088**

**SWIGOD A SEBON**
GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Eisteddfod Bethel 2017



Cynhaliwyd yr Eisteddfod Ddydd Sadwrn, Hydref 21ain, 2017. Y beirniad cerdd oedd Mrs Einir Wyn Jones, Pwllheli a'r beirniad llefaru oedd Sion Emyr, Penisarwaun. Arweinyddion y prynhawn oedd Mrs Sharon Parry, Ceri a Ild Jones gyda Manon Gwynedd a Anita Owen yn arwain cyfarfod yr hwyr. Y cyfeilyddion oedd Gethin Griffiths, Siôn Elwyn, Manon Elwyn, Elen Ifans a Deilwen Hughes. Heledd a Ioan oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r rhubanau i'r plant ieuengaf. Canlyniadau:

CANU AC OFFERYNNOL

Unawdau

Dosbarth Meithrin: 1af - syfi, 2il - Tomi ac Efa, 3ydd - Siwan

Dosbarth Derbyn: 1af - Efa, 2il - Owain, 3ydd - Jona

Blwyddyn 1: 1af - Kyla, 2il - Wil, 3ydd - Dion

Blwyddyn 2: 1af - Sara, 2il - Leiai, 3ydd - Caio

Blynyddoedd 3 1af - Steffan, 2il - Lisa, 3ydd - Caio

Blwyddyn 4: 1af-Llyr, 2il-Gruff, 3ydd-Amy

Blynyddoedd 5 & 6: 1af - Cadi, 2il - Ifan, 3ydd - Alaw

Blynyddoedd 7- 9: 1af - Tomos, 2il - Gwawr

Blynyddoedd 10-13: 1af - Heledd

Partïon Canu

Blynyddoedd 1 - 3: 1af - Saith Seren, 2il - Criw Bach

Blynyddoedd 4 - 6: 1af - Genod Gwyllt 2ail- Hogiau Honco

Alaw Werin

Blynyddoedd 7 - 13: 1af - Gwawr

Cerdd Dant

Blynyddoedd 1 - 6: 1af - Gruff

Blynyddoedd 7 - 13: 1af - Heledd

Piano

Blynyddoedd 4 - 6: 1af - Lydia, 2il - Cadi, 3ydd - Sion Llwyd ac Ifan

Blynyddoedd 7 - 9: 1af- Mari, 2il - Owain

Blynyddoedd 10 - 13: 1af - Elen, 2il - Gwenllian

Deuawd: 1af - Gwenllian a Heledd, 2il - Beca a Cadi

Offerynnol

Blynyddoedd 1-6: 1af - Ifan, 2il - Eban, 3ydd - Cadi

Blynyddedd 7 - 9: 1af - Mari

Blynyddoedd - 10 - 13: 1af - Owain Llestyn

Can Gyfoes-1af-Heledd, 2ail Tomos

LLEFARU

Dosbarth Meithrin: 1af - Syfi, 2il - Siwan, 3ydd - Ffion

Dosbarth Derbyn: 1af - Rio, 2il - Fflur, 3ydd - Owain a Hari

Blwyddyn 1: 1af - Kyla, 2il - Rhiannon, 3ydd - Osian

Blwyddyn 2: 1af - Leia, 2il - Cain a Lleucu, 3ydd - Caio

Blynyddyn 3: 1af - Max, 2il - Steffan, 3ydd - Lisa

Blwyddyn 4: 1af-Gruff, 2ail-Llyr, 3ydd-Erin

Blynyddoedd 5 & 6: 1af - Ifan, 2il - Cadi 3ydd - Elis ac Lydia

Blynyddoedd 10-13: 1af - Gwenllian

Partïon Llefaru

Blynyddoedd 1 - 3: 1af - Saith Seren, 2il - Criw Bach

Blynyddoedd 4 - 6: 1af - Parti'r Frwydr

Blynyddoedd 7 - 13: 1af - Y Mor

Darn Heb ei Atalnodi: 1af - Ioan, 2il Gwenllian, 3ydd - Heledd ac Iolo

ENILLWYR Y TLYSAU

Tlws er cof am Richard Hughes(ysgol yrru Bethel) (Llefaru Cynradd): Ifan Aled

Cwpan Konica (Llefaru Uwchradd): Gwenllian

Tlws Coffa Siân Robinson (Darn heb ei Atalnodi): Ioan Ifans

Tlws Parc y Wern (Parti Llefaru Cynradd): Parti'r Frwydr

Tlws Coffa Goronwy Jones (Lleisiol Cynradd): Cadi Glain

Tlws Coffa W.G.Ellis (Piano Cynradd): Lydia

Tarian Ael y Bryn (Offerynnol Cynradd): Ifan Aled

Tlws Coffa Mrs Joan Foulkes (Lleisol Uwchradd): Tomos Gibson

Tlws Coffa John M Williams: (Piano Uwchradd): Gwenllian

Tlws Teulu Penparc (Offerynnol Uwchradd): Owain Llestyn

Tlws Llwyn Eithin (Parti Canu Cynradd): Parti y Gôl - Genod Gwyllt

Tlws Coffa Annie E Williams (Parti Llefaru Uwchradd): Y Mor Mae'r tlysau bach sydd i'w cadw am byth yn rhoddedig gan Sien-cyn a Glenys Griffiths, Wil a Nora Parry, Brian ac Eirlys Sharpe, Elwyn a Gwyneth Jones, Rita Williams, Menna Williams, Alun a Sheila Foulkes, Huw a Nan Jones, Gareth a Rhian Hughes, Margaret a Phillip Williams, Arwel ac Iola Jones, Deilwen ac Elwyn Hughes.

SEREMONI'R CADERIO

Ein beirniad Llên oedd Mrs Haf Roberts, Penisarwaun a braf oedd ei chroesawu'n ôl atom i Fethel ar gyfer y Seremoni. Y Prif Lenor Cynradd oedd Elis Jones a'r Prif Lenor Uwchradd oedd Gwenllian Griffiths. Derbyniodd y llenor cynradd Dllws y Gymdeithas Lenyddol a thlws i'w gadw am byth yn rhoddedig gan Manon Gwynedd. Derbyniodd y llenor Uwchradd Dllws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen, a thlws i'w gadw am byth yn rhoddedig gan Gareth a Manon Griffiths.

Yr oedd yr Orsedd o dan ofal medrus Manon Gwynedds. Codey oedd Ceidwaid y Cledd, Owain Llestyn ac Tomos yn chwythu'r Corn Gwlad, Gwenllian ac Heledd yn canu Cân y Cadeirio a Gethin Griffiths yn cyfeilio. Cyrchwyd y llenorion i'r llwyfan gan Ifan Aled (camu i mewn funud olaf) ac Iago. Lois a Geraint cyfarchwyd y llenorion gyda phenillion a gyfansoddwyd gan y beir-



niad a hefyd gyflwynodd y tlysau i'r llenorion buddugol. Cyflwyir Y Gwpan er Cof am Geraint Elis i'r llenor buddugol ym Mlynnyddoedd 7- 9 yn ogystal â thlws i'w gadw am byth gyda'r arian. Enillydd y Gwpan oedd Cai Moss. Diolch hefyd i deulu'r diweddar Richard Hughes (Ysgol yrru Bethel) am eu rhodd i'r Eisteddfod. Bydd y tlws yn cael ei roi i'r llefarwr Cynradd gorau. Diolch am eu haelioni.

CANLYNIADAU LLENYDDIAETH

Meithrin: 1af- Syfi, 2ail-Efa, 3ydd-Ffion

Derbyn: 1af- Awel, 2ail-Robin, 3ydd- Lydia a Megan

Blwyddyn 1: 1af – Megan, 2il – Leo, 3ydd – Abi

Blwyddyn 2: 1af – Lleucu, 2il – Leia, 3ydd – Ana

Blwyddyn 3: 1af – Efa; 2il – Ella; 3ydd – Cadi

Blwyddyn 4: 1af - Llyr, 2il – Erin, 3ydd-Ana

Blwyddyn 5: 1af – Ela, 2il – Elin 3ydd – Ifan Aled

Blwyddyn 6: 1af – Elis, 2il Owain 3ydd – Morgan Davies

Blynnyddoedd 7 – 9: 1af – Cai Moss, 2il – Cai Moss, 3ydd – Elis

Blynnyddoedd 10 – 13: 1af – Gwenllian, 2il – Heledd, 3ydd: Rhainwen

Y Limrig-1af-Ellen Ellis, 2ail-Rita, 3ydd-Ellen Ellis

Llain yr Ardd- 1af-Richard Llwyd, 2ail- Yvonne Griffiths-Jones, 3ydd Helen Morris.

CYSTADLAETHAU CELF A CHREFFT

Y beirniad oedd Mrs Nia Wyn Hughes, Rhostryfan, Unwaith eto cafwyd ymateb da i'r cystadlaethau celf a chrefft gyda nifer o eitemau creadigol iawn . Braf oedd cael arddangos y gwaith yn y Neuadd fechan ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn yr ysgol): Llyr Elwyn

Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn y cartref): Ifan Buck Jones

Tlws Celf Gwaith Uwchradd (wedi ei wneud yn y cartref): Cadi Glyn

Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am fod yn rhan o Eisteddfod Bethel 2017.

Diolch yn arbennig i bawb a fu'n cystadlu; i'r beirniaid am eu hamser, eu cyngor a'u cwmni ; i Athrawon a Staff yr Ysgol Gynradd a'r Cylch Meithrin am eu cefnogaeth gyda'r cystadlaethau Llên, arlunio, canu a llefaru unigol; i Adran Y Gymraeg, Ysgol Brynrefail am eu cefnogaeth gyda'r gwaith Llên Uwchradd; i'r holl wirfoddolwyr am roi eu hamser prin i hyfforddi, arwain a chyfeilio; i rieni am gyrchu eu plant yn ôl ac ymlaen i'r ymarferion ac i Bwyllgor y Neuadd Goffa am gael defnydd o'r Neuadd yn ystod yr wythnos. Diolch i ffrindiau a busnesau lleol am roddion tuag at y raffl a chostau'r Eisteddfod a diolch i bawb o Bwyllgor yr Eisteddfod am eu gwaith caled unwaith eto er mwyn sicrhau Eisteddfod lwyddiannus unwaith eto eleni.

Sul y Cofio

Er y cawodydd trwm daeth cynrychiolaeth deilwng i'r gwasanaeth cofio ger y Gofeb ar libart yr ysgol eto eleni. Fe'n harweiniwyd mewn darlleniadau hgan ddisgyblion yr ysgol. Gwnaed hyn ag urddas, diolch i'r sawl a fu'n eu hyfforddi. Cofnodwyd enwau 29 o fechgyn y pentref a gollwyd, 20 yn y Rhyfel Byd Cyntaf a 9 yn yr Ail Rhyfel Byd. Y mae amgylchiadau rhai o'r marwolaethau hyn – fel pob marwolaeth rhyfel, yn ddirydol. Lladdwyd dau tra'n cael eu cludo draw i Japan fel carcharorion rhyfel. Arall yn boddi tra'n ceisio achub bywyd. Arall yn Normandy, a'i frawd wrth ei ochr. Roedd y rhan ddefosiynol dan arweiniad y Parch Marcus Robinson. Gwahoddwyd mudiadau lleol i osod torch, a daeth cynrychiolwyr ymlaen ar ran Merched y Wawr, Clwb Snwcer, Pwyllgor y Neuadd, Clwb Bro Bethel a'r Clwb Pel-droed. Gosodwyd tair torch bersonol gan deulu dau o'r milwyr: Hugh Thomas (Celtic House), Robert Griffith (Gelli) a'r Cynghorydd Sion Jones. Eleni gosodwyd y dorch ar ran y pentref gan Edwina Morris, ac ar ran plant yr ardal gan Lois Jones a Carey Jones.

"Ym more oes, eu gwaed a roes yr hogiau
Er prynu'n ddrud dy ryddid di a minnau."

Eisteddfod y Pentref

Cafwyd cefnogaeth deilwng eto eleni, ar ac oddi ar y llwyfan. Roedd y beirniaid yn amlwg wedi eu plesio, gydag ambell gystadleuaeth yn cyrraedd safon uchel iawn. Yng nghystadleuaeth y prif wobrau llenyddol nododd y beirniad aeddfedrwydd yn yr ysgrifennu. Enillwyd Tlws Oedran Cynradd gan Ellis Jones, a'r Tlws Uwchradd gan Gwenllian Griffiths. Diolch i'r pwyllgor unwaith eto am eu gwaith di-flino yn llwyfannu diwrnod o adloniant amrywiol. Mae'r pwyllgor hwythau yn mynegi eu gwerthfawrogiad o'r llu a gyfrannodd mewn amser, arian a thlysau.

Cydymdeimlo

Y mis hwn cydymdeimlwn a theulu'r diweddar Lawrence Walley, Coed Bolyn Bach. Cof go iawn oedd Lawrence, yn llawn hiwmor, ac yn uchel ei barch ym myd rasio colomenod.

Diolchiadau

Dymuna Pat, Sioned a Robin ddiolch o galon i gymdogion, ffrindiau a theulu am yr holl garedigrwydd a dderbyniwyd ac a werthfawrogydd yn fawr ar yr achlysur trist o golli tad, gwr a thaid gofalus, sef John Arfon

Owen. Diolch i'r Dr Huw Gwilym a Dr Emyllt Llwyd am eu gofal arbennig a diflino. Diolch hefyd i staff meddygfa Waunfawr ac i nyrsus bro yr ardal am eu gofal tyner hwythau. Bu hyn o gymorth mawr i'r teulu. Derbyniwyd cyfanswm o £1,005 er cof am John, a bydd yn cael ei rannu rhwng Cronfa Cleifion Meddygfa Waunfawr a Chronfa Cleifion Nyrsus Bro yr ardal. Diolch i Arwel a John Hughes a'i fab am eu trefniadau ddiwrnod yr angladd, ac i Westy'r Fictoria, Llanberis am drefnu'r lluniaeth wedi'r angladd.

Yn yr un modd dymuna Menna Dauncet, Munawel, ddiokch am y consyrn, y cariad a'r caredigrwydd a dderbyniodd yn dilyn ei llaw-driniaeth ddiweddar yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Roedd y gefnogaeth yn gefn iddi dros gyfnod poenus, a braf cofnodi fod Menna yn gwella'n raddol. Dymunwn yn dda iddi.

Y Gymdeithas Lenyddol

Braf cofnodi fod y Gymdeithas yn mynd rhagddi eto eleni, a chafwyd noson agoriadol hwyliog yng nghwmni Ann Pierce-Jones, Hendre Cennin ar y thema "Dechrau Canu..." Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Cysegr (am 7.00) ar Ragfyr 12fed, pam gyflwynir Noson Nadoligaidd yng nghwmni aelodau'r Gymdeithas. Ceir lluniaeth ysgafn i ddilyn. Croeso i bawb alw draw i ddechrau dathliadau'r Wyl ar lafar ac ar gan.

Cronfa Calonnau Bethel

Braf cofnodi fod y symudiad i roddi peiriant Di-Fib at wasanaeth y pentref wedi cydio. Ar wahan i'r achos teilwng, mae'r ymateb wedi tanio sawl gweithred gymdeithasol i godi arian. Ar wahan i gyfraniadau unigol cafwyd rhodd o £300 gan aelodau Capel Bethel (A) ac fe drefnwyd bore o baned a chacen gyda'r stondinau arferol gan gangen Merched y Wawr yn y Neuadd. Bydd y Parch Marcus Robinson yn cynnal noswaith Caws a gwin yn y Neuadd ym mis Chwefror. Diolch am bob cyfraniad.

Merched y Wawr

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Dr. Endaf ap Ieuan ar Hud a Lledrith Madarch. Croesawyd pawb i'r noson gan y Llywydd, Liz Watkin. Cydymdeimlodd â Mair Williams ar golli gor-nai yn ddyflwydd oed yn yr Iwerddon, dymuniwyd gwella'dd ym Menna merch Rita a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar a llongyfarchwyd Ffion (merch Eirlys) ar ei phriodas â Nickolas.

Atgoffwyd pawb am y bore coffi bore Gwener, 17 o Dachwedd. Enillwyd y raffl gan Gwenan.

CWMY GLO

Gwellhad Buan Dymunwn wellhad buan i Elizabeth, 17 Dôl Afon, wedi'r driniaeth i'w llaw a hefyd i Bethan wedi iddi dderbyn triniaeth i'w choes yn Ysbyty Gobowen.

Llongyfarchiadau i Ifan Gwyn, Gwêl Elidir, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys Santes Fair ddydd Mawrth, Hydref 17. Cymerwyd y gwasanaeth gan Auriel. Croesawyd pawb i'r cyfarfod ac roedd aelodau o'r cyfarfod gyda'r nos yn bresennol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan amryw o'r aelodau. Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a'u derbyn fel rhai cywir. Cyfarfod Blynhyddol oedd hwn a derbyniwyd llythyr gan y Cadeirydd a'r Trysorydd yn datgan eu bod am roi'r gorau i'w swyddi. Cytunodd Auriel i ymgymryd â swydd y Cadeirydd dros dro ond ni etholwyd Trysorydd. Cafwyd trafodaeth wedyn ynglŷn â dyfodol y cyfarfod a chytunodd aelod o gyfarfod gyda'r nos godi'r mater.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Tachwedd am 1.20 y pnawn gyda chinio Nadolig yn Y Celt, Caernarfon.

Enillwyd y raffl gan Auriel a diolchodd i Marjorie a Dorothy am y lluniaeth. Terfynwyd y cyfarfod gyda gweddi.

Diolch Dymuna Hilda ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870292

Iechyd. Drwg iawn yw gennym ddeall nad yw Mrs Priscilla Williams, Wylfa, yn rhy dda. Mae pethau wedi newid yn fawr efo hi. Bu iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 103 y mis diwethaf ac yr oedd yn ddigon tawel ac nid wedi dathlu fel ag y bu iddi wneud o'r blaen. Eirwen ac Alwyn yn ddigon poenus o'i gweld ddim eisiau bwyd a hithau wedi bod yn bwyta mor dda, pleser fyddai gwneud bwyd iddi. Gobeithio yn arw y daw hi dros hyn eto a'n gobaith fel ardal yw y cawn rhyw sgwrs efo hi eto. Anti Cila, brysiwch wella. Mae Eirwen ac Alwyn wedi rhoi gofal mawr iddi ar hyd y blynyddoedd.

Y mae Mr John Ellis Morris, Rhiwen, wedi dod i Gartref Plas Pengwaith, Llanberis, o'r ysbyty. Mae'n brolio y caredigrwydd a'r gofal y mae yn ei gael ond, wrth gwrs, am ddod adref y mae o, medda fo. Y mae wedi gwella yn arw ar ôl dod o'r ysbyty, wedi dychryn ei weld yn symud ac yn mwynhau ei fwyd. Gobeithio yn arw y bydd yn gallu setlo i lawr yno. Y rhyfeddod mwyaf yn awr yw nad oes ond ychydig iawn o sôn am y chwarel, a fynta bob amser yr oeddych yn ei weld yn y chwarel dros ei ben a'i glustiau. Mr Morris, gobeithio yn arw y cewch weld y 104 ac y gallwch setlo i lawr yn y cartef newydd.

Mae Mrs Megan Morris, Plas Garnedd yn weddol y dyddiau yma. Yr ydym fel ardal yn anfon ein cofion gorau atoch eich tri.

Problemau Parcio yn Ninorwig Mae wedi mynd yn anodd iawn parcio ym Mro Elidir. Yr ydym ni fel teuluoedd sydd yn byw yma wedi rhagweld y broblem ers y bu i'r capel a'r eglwys fynd yn gartrefi i estroniaid. Yn ôl y Cynghorwyr a roddodd yr hawl cynllunio yr oedd lle i ddau gerbyd basio ei gilydd ar y ffordd. Rhai oedd y cynghorwyr yma nad oeddynt yn gwybod dim am yr ardal, gan fod un ohonynt yn dod o Groesor! Tybed a oedd wedi bod yn yr ardal cyn hynny?

Cawsom fws ugain sedd yn parcio yma yn ddiweddar ac yn ddigon digywilydd yn rhoi nodyn parcio ar gar un o'r preswylwyr ac yn cario y rhai oedd ynddo hefo ceir i lawr i'r hen gapel. Mae wedi mynd yma fod pawb ofn mynd â'r car allan rhag ofn na allwn barcio ar ddod adref. Mae hyn yn digwydd yn aml pan yn dod adref ar nos Sul o'r capel.

Mae Ty'n y Fawnog wedi mynd yn dŷ haf yn awr a chan fod tri yno hefo cerbydau mae Bro Elidir wedi mynd yn lle parcio iddynt hwythau, er bod modurdy yn Ty'n y Fawnog.

Gan i fy nhad a minnau, yn y chwedegau, orfod mynd i weld Cadeirydd y Cyngor Sir ar ôl i un o gerbydau'r cyngor wneud tipyn o lanast ar fy nghar (yr unig un yn y stryd y pryd hwnnw). Daeth y gŵr bonheddig hwnnw i weld y sefyllfa drosto'i hun a darganfod bod y sefyllfa yma yn reit ddrwg. Fe fu i'r Cyngor ledu y ffordd i gael mwy o le parcio, gyda rhagolwg y byddai mwy o'r bobl a ddôl i fyw i'r stryd efo ceir. Wrth gwrs, i bobl y stryd yr oedd hyn i fod, dim i estroniaid sydd yn aros yma am ddyddiau.

Pan oedd Ras Eryri yn Llanberis o ddydd Gwener hyd y Sul yr oedd ceir yn cael eu parcio lle bynng y gwelsent le. Yr oedd cryn dipyn 'r rhai oedd yn rhedeg yn y ras yn aros yn yr hen ysgol. Rhwng popeth sydd wedi newid yn yr ardal y mae hyn wedi dod yn broblem fawr.

Mae cryn broblem yn yr Allt Ddu efo'r holl geir sydd yn tyrru yno. Dros saith deg yno ar y penwythnos a does yna ddim cyfleusterau o gwbl ar gyfer yr holl bobl. Does dim angen dweud dim mwy! Tybed pa bryd y bydd Cyngor Gwynedd yn dod â gwelliannau i'r ardal? Tybed a oes raid i ddamwain fawr ddigwydd yma cyn y bydd pethau yn newid er gwell? Ar y funud mae'r unig bethau sydd yn dod yma yn dod â phroblemau mawr efo hwy.

Mae i fod yn ffordd gyda chyflymder o 30 milltir yr awr yn unig, ond yn lle hynny y mae'r lôn o Ddeiniolen i Ddinorwig wedi mynd fel cwrs rasio. Mae'r ceir wedi mynd mor wirion â rasio yn erbyn ei gilydd. Os gwelwch yn dda, angofiwc y fath beth. Gwiriondeb o'r math gwaethaf. Ble yr aeth synnwyr cyffredin? Mae eraill ar y ffordd a rhai yn cerdded.

Croeso Braf yw croesawu Cymro i Dan y Bwlch, sef Iwan Griffith o Lanberis. Y mae yn dod i fyw i gartref ei dad, Iolo. Croeso mawr i ti, Iwan, a gobeithio y byddi yn hapus yn ein plith.

Gwasanaeth Gwres a Plymio 

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



CYNGERDD CAROLAU

Mynydd Gwefru
LLANBERIS

2 o'rgloch DYDD SUL
RHAGFYR 17 2017

Gyda **Seindorf Arian Deiniolen**
A Chôr Meibion Dyffryn Peris

Mynediad am ddim-Gasgliad tuag at Achos Teilwng

HYNACARALL - Hei! Chdi'r Crwydryn, 'r un sy'n dra-hoff o'i banad, a sgwrs!

(Dyma'r olaf yn y gyfres 'Hyn ac Arall'. Diolchaf i Eco'r Wyddfa, ac i chwithau, am gadw cwmni hefo ni'n dau ar hyd y gwahanol deithiau a gawsom ni.)

Petae rhywun, rhyw dro'n mynd ati i glandro symiau ynghylch faint yn union o gamau a gymerwyd i gyrraedd copa'r Wyddfa, cyn disgyn oddi yno, a'r oll wedi hen hen ddigwydd yn yr oesoedd a fu, a hyd yn oed bora heddiw ddiwethaf – Ie! Tasg cwbl amhosibl! Hawdd ydi mynd ati i ddychmygu! Ond ni all dyn, waeth beth ydyw ei faint corfforol fyw ar ei ddychymyg yn unig! Wedyn, meddyliwch mewn difri calon faint yn union o sgysiau a gynhaliwyd tra'n mwynhau paneidia ar lechweddau'r Wyddfa, neu wedi disgyn oddi yno.

Sgwrs a phaned? Dyma bethau hollol unigryw, sy'n cymaint rhan o'n bywydau, a diolch ar ei ganfed amdanynt.

Dyma loetran hefo Robert Owen, Bron y Graig, Nantgwynant a'i lythyr yng ngholofn wythnosol Carneddog, sef 'Manion o'r Mynydd' yn Yr Herald Cymraeg Rhagfyr 29 (1925):

'Adroddai John Roberts yr hanes hwn wrthyf ar Sul y Pasg, yn Ebrill 1881...' a Carneddog yn gofyn beth ydoedd gwyddfodolion. 'Pur anystyriol ydoedd y mwyafrif ohonynt...' ydy'r atab a gafodd. 'Ond roedd un cymeriad nodedig yn eu mysg' ac yn enwog 'am ei annuwioldeb a'i anystyriaeth... Byddai hwn yn arferol o wneud gwawd o Grefydd a Chrefyddwyr...'

Mae nhw i'w cael ymhob oes onid ydynt!

'Hwn' ydoedd Moses Williams (Moses y Potiwr), prif ymladdwr tref Caernarfon..., (a chawr o ddyn... o ran maint a nerth') ond rhoddodd orau i ymladd. Penderfynodd hefyd beidio ag yfed cwrw, a throsnostrodd yn ddirwestwr. Mifyddai Dewi Nawddsant ein cenedl ar ben ei ddigon petae Moses Williams wedi cydoesi â fo! 'Ymunodd' (Moses) 'a'r Temlwyr Da... a rhoddasant arian i adeiladu tŷ coed, i fod yn "Dŷ Dirwestol" ar Hanner y Ffordd (Halfway) o Lanberis i Ben yr Wyddfa.' Diddoroliawn onide! Ond arhoswch chi, digon gwir bod Moses "yn Ddirwestwr" (sylwch da chwi ar y D fawr!) Felly buodd hi hefyd 'am rai blynyddoedd, ond wedi iddo dalu yr arian benthg i'r Temlwyr Da gwnaeth gais am drwydded i werthu diodydd meddwol, ond fe'i gwrthodwyd

gan yr Ynadon yng Nghaernarfon, felly iti ddeall!!' ebe Robert Owen, Bron y Graig, Nantgwynant, doedd Moses Williams 'heb fod wedi cael llwyr argyhoeddiad, ond bu'n ddyn hollol newydd hyd ddiwedd ei oes, a chafodd fyw nes cyrraedd ei 80 mlwydd...'

Daw hyn â ni at erthygl drwsiadus o eiddo Anita Butler, sydd ar gael yn rhifyn 79 cylchgrawn 'Y Faner Newydd' (2017) ble trafodir ei nain, sef Elizabeth Huntley (marw'n y flwyddyn 1943), un a fu'n byw ym mythynnod Bing, Llanberis. Ebe'r awdures:

'Efallai eich bod wedi dringo'r Wyddfa o Lanberis. Os felly, rydych wedi mynd heibio'r fan lle'r oedd y bythynnod. Credir mai ystyr 'bing' ydy lle i olchi copor... Dydy gofod heb fod yn caniatáu imi ymhelaethu ynghylch 'bing'. Ylwch! Os byw ac iach, mi wnaif sgwennu llythyr i Eco'r Wyddfa o hyn i Galan 2018 ynghylch tarddiad y gair.

Ym meddiant Anita Butler, ceir Llyfr Ymwelwyr y flwyddyn 1897 'sy'n cynnwys negeseuon diddorol gan gerddwyr a dringwyr oedd yn mynd heibio'r bwthyn ar eu ffordd i fyny ac i lawr yr Wyddfa. Roedd Jane Thomas a Lisi Huntley (dyna sut adwaenid Nain yn Llanberis) yn cynnig te a chyfleusterau i'r cerddwyr.' Brolir y Llyfrau Ymwelwyr blynyddoedd 1904/1910, 'y croeso yn y bwthyn bach unllawr, a'r te a baratowyd ar eu cyfer ar ôl taith hir a blinedig i fyny ac i lawr yr Wyddfa.' Cyfeirir at y llestri te hardd a'r gegin drwsiadus, a bod yno ddodrefn derw. Sonir am y tywydd! Glaw trwm! Oerni! Ond ceid cynhesrwydd bob amser yn y Bing!

Rhyw feddwl rydw i, sut greadur fuaswn i heb gael y fraint o weld yr Wyddfa. Fe'i ceid yno ar y gorwel tra'n bwrw fy maboed yn Uwch-Ardudwy, Meirion, a bellach ers cyfarfod Linda a dyfod i fyw i'r Glasgoed, y mae mynydd uchaf Cymru'n parhau i fod yn rhan o'm byd a'm bywyd. Ond tybed sawl cam rhaid ymgymryd â fo cyn cyrraedd copa'r Wyddfa, arafu, ac o dipyn i beth rhyw feddwl disgyn oddi yno? Ie! Ys gwn i! Ond pwy sy'n poeni dwedwch? Yn y profiad o fod yn rhan o'r Wyddfa, hyd yn oed ei gweld, ni ellir ond cyfaddef mai dyma beth ydyw gwefr, a'r agosatrwydd sy'n cynnal bywyd. A diolch byth amdano, drosodd a thro, ddweda i.

Dafydd Gruffudd Ifan

Taith hudol Cyw ar draws y wlad!

Cyw's magical journey across the country!

Cyw yn dod â hwyl a hud y Nadolig i Wynedd!

Mae Cyw a'i ffrindiau yn dod i'r ardal cyn hir fel rhan o daith i ddymuno Nadolig Llawn i blant ar hyd a lled Cymru.

Bydd rhai o gyflwynwyr a chymeriadau hoffus S4C - Huw, Elin, Ben Dant a'i ffrind Cadi, Seren o blaned Asra ac, wrth gwrs, Cyw ei hun - yn dod i Wynedd ar 14, 16 a 17 o Ragfyr ac maen nhw'n eich gwahodd chi i ymuno â nhw yn yr hwyl!

Bydd tair sioe yn cael eu cynnal yn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli, ar 14 o Ragfyr, ac mae'r sioeau yn dechrau am 11.30, 1.45 neu 5.45.

Mae sioeau hefyd yn cael eu cynnal yn Galeri, Caernarfon. Ar 16 o Ragfyr bydd sioeau am 11.00, 1.45, 3.45 a 6.00; ac ar 17 o Ragfyr bydd sioeau am 11.00, 1.45 a 3.45.

I brynu eich tocyn, dilynwch y ddolen ar [wefan s4c.cymru/cyw](http://wefan.s4c.cymru/cyw)

Mae'n bosibl archebu tocynnau ar gyfer grwpiau os ydych chi'n dymuno trefnu trip ar gyfer eich ysgol, mudiad meithrin neu grŵp chwarae. Mae croeso mawr i bawb yn Sioe Cyw!

Bydd ffi bwcio o £1.00 ar bob archeb sy'n cael ei wneud dros y ffôn neu ar-lein. Cysylltwch â Galeri ar 01286 685 222 os gewch unrhyw anawsterau.

Mae Sioe Nadolig Cyw yn boblogaidd iawn pob blwyddyn a'r tocynnau yn gwerthu'n gyflym, felly peidiwch ag oedi!



ACHUB Y PLANT

Byddwch wych; byddwch wlanog!

Bydd y wlad yn troi'n wlanog unwaith eto y Nadolig hwn wrth i blant ac oedolion mewn ysgolion, cartrefi a swyddfeydd wisgo eu siwmperi gwirionaf ar gyfer Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant ar ddydd Gwener, 15fed o Ragfyr.

Nod Diwrnod Siwmpwr Nadolig yw codi arian ar gyfer cefnogi gwaith yr elusen yn rhyngwladol a hefyd yma yng Nghymru. Gofynnir i bawb wisgo siwmpwr liwgar a chyfrannu £2 (£1 os mewn ysgol) gyda'r holl arian a gesglir yn mynd tuag at helpu plant mwyaf bregus y byd; boed hynny'r rhai sy'n byw mewn gwersylloedd i ffoaduriaid neu ardaloedd rhyfelgar, yn dioddef o newyn neu drychineb naturiol, neu'n profi effeithiau tlodi yma yng Nghymru.

Ers lansio Diwrnod Siwmpwr Nadolig yn 2012 mae wedi codi swm o £13.5 miliwn, a'r llynedd fe godwyd y swm aruthrol o £4 miliwn o bunnoedd. O jysis sy'n janglo i siwmperi sy'n goleuo a disgleirio, eleni mae Achub y Plant yn gobeithio y bydd 5 miliwn o bobl yn cymryd rhan a byddai'n braf petai trigolion yr ardal yn ymuno yn yr hwyl at achos teilwng iawn.

• Gallai £1 brynu tabled puro i gyflenwi teulu gyda dŵr yfed glân

• Gallai £2 brynu pâr o esgidiau gaeaf i blentyn yn Afghanistan

• Gallai £400 brynu dŵr potel a blancedi thermol i 50 o blant Pecyn Codi arian Cymraeg ar gael i ysgolion a'r cyhoedd Gellir cofrestru ar www.christmasjumperday.org, ac unwaith i chi wneud hynny cewch e-bost fydd yn mynd a chi at dudalen lle gellir dewis fersiwn Gymraeg o'r pecyn codi arian yn ogystal â phosteri i'w llawrlwytho. Mae'r pecyn yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol a dwl i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmpwr Nadolig yn llwyddiant.

Ymysg eraill, bydd siopau WH Smith yn cefnogi Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant eleni drwy greu dau dedi bêr arbennig o'r enw Benji a Bruno. Gwerthir y tedis mewn siopau WH Smith ledled Cymru â'r DU am £4.99, gyda £1 o bob gwerthiant yn mynd tuag at yr elusen.

Os am sgwrs yn y Gymraeg am Ddiwrnod Siwmpwr Nadolig neu waith Achub y Plant yn gyffredinol, cysylltwch â Rhian Brewster neu Eurgain Haf ar 029 20 396838 neu e-bostiwrchr.brewster@savethechildren.org.uk <<mailto:r.brewster@savethechildren.org.uk>> neue.haf@savethechildren.org.uk <<mailto:e.haf@savethechildren.org.uk>>. Cewch fwy o wybodaeth hefyd ar ein tudalen Facebook @savethechildrenwales a Twitter @savechildrencym a chofiwch ddanfôn eich lluniau atom ar y gwefannau cymdeithasol drwy ddefnyddio #diwrnodsiwmpwrnadolig.

LLANRUG Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)

Profedigaeth Estynnwn ein cofion diffuant at Bryn Williams a Iona, Lôn Groes, yn eu profedigaeth yn colli mam Bryn a nain annwyl Mathew a hen nain Daisy bach. Colled fawr i chi i gyd.

Llun 'Chwilota' WEA Llanrug yn Eco Tachwedd Diolch i Carrie Owen am yr enwau!

O'r chwith:(rhes flaen): Llew Hughes, John Rowlands, Mr a Mrs J. Griffith Jones, Carrie Owen, Dafydd Wigley, Dr Cyril Parry, Mrs Parry, Mary Lloyd Williams, Eluned Hughes, Katie Watkins, Mr a Mrs Oswald Davies.

O'r dde (rhes gefn): ? , Eirian Morris, Eric Morris, Mair Rowlands, Nerys Jackson, Bob Jones, John Wyn Owen, Jack Hughes, Cledwyn Williams.

Diolchiadau Dymuna Bet, Brian, Alan, Nicola a'r teulu ddiolchambob cymdymdeimlad, ymweliad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Stan. Diolch am bresenoldeb pawb ddaeth i'r angladd, yr holl gardiau a'r rhoddion tuag at Ymddiriedolaeth Ambiwlans Caernarfon a diolch iddynt am eu cymorth yn ystod ei waeledd. Diolch i'r Parch Ddr Carol Roberts a'r Parch Ddr Wilcox am y gwasanaeth parchus. Diolch i Dr Munro hefyd am ei wasanaeth wrth yr organ.

Diolch arbennig i Meinir am ein harwain drwy y cyfnod anodd yma. Diolch i chwi oll.

Cofion Gorau Dymunwn wellhad llwyr a buan i Lilian

Capel y Rhos – Oedfaon Rhagfyr

3: Y Gweinidog, Y Parch Marcus W. Robinson

10: Parch Pryderi Llwyd Jones

17: Gwasanaeth Nadolig y Plant

24: Sul yr Aelodau

31: Sul yr Aelodau

Roberts, Dwyrhyd, Glanffynnon sydd yn yr ysbyty. Hefyd cofiwn am Alf Parry, sydd ddim yn dda chwaith. Brysiwch wella.

Diolch Dymuna Jennifer, 48 Glanffynnon a theulu 3 Pentre Helen, Deiniolen, ddiolch am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl a charedig, sef Eirlys Williams. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth ar ddydd yr angladd ac i Gwynfor a Jane o E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau cywir a pharchus ac i Mair Huws, yr organyddes. Cyflwynir y rhoddion ariannol, sef £250 i Feddygfa Llanberis a £250 i Ymchwil Alzheimer Cymru.

Llongyfarchiadau i Mrs Megan Williams, Bron Eryri, ar ddod yn han nain unwaith eto. Ganwyd Cian, mab bach i Heledd a Siôn yng Nghaerdydd. Mae nain a taid Eirian ac Elfed Roberts, gynt o Glanffynnon, wedi gwirioni hefyd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Linda Jones, 1 Didfa, a'r plant a'r wyrion a'r wyresau. Maent wedi colli Anthony – gŵr, tad a thaid annwyl iawn iddynt.

Anfonwn ein cofion a'r dymuniadau gorau at Alwena Hughes-Jones. Yn dilyn damwain yn ei chartref mae hi'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Stoke.

Mae Gordon Carter, 2 Didfa, hefyd yn yr ysbyty yn Coventry. Fe'i trawyd yn wael yn ystod ymweliad Côr Bangor â'r ddinas. Brysiwch wella.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

ARVONIA



- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk



Newyddion yr Ysgol Gynradd

Ymddeoliad



Yn ystod y mis diwethaf bu i Anti Gwawr ymddeol o helpu plant ysgol Gynradd Llanrug i greosi lôn. Bu hi'n gwneud y swydd am yn agos at 20 mlynedd a llawer genhedlaeth wedi dysgu rheolau ffordd fawr gyda hi.

Pencampwyr Pel-rwyd Gwynedd



Llongyfarchiadau fil i dim pel-rwyd merched yr ysgol am ddod yn bencampwyr Gwynedd yn ddiweddar! Cafwyd gemau/ perfformiadau o safon uchel iawn gan y genethod. Pob lwc i chi yng nghystaweth Gogledd Cymru.

Dosbarth Meithrin



Dyma blant y dosbarth Meithrin yn mwynhau pnawn o adloniant i ddathlu Calan Gaeaf. Bu'r plant yn brysur yn dysgu am y cynhaeaf fel rhan o'i thema yn ystod y tymor.

Blwyddyn 1 a 2

Bu blwyddyn 2 i gyd ar ymweliad i Tesco Bangor i weld yr holl gynnyrch iach sydd yno. Cafodd bawb wneud bara a blasu gwa-hanol ddanteithion. Diolch yn fawr i Sarah am drefn'r daith i ni. Bydd hyn yn ddechrau da i ran nesaf ein thema.

Blwyddyn 5 a 6

Fel rhan o'n ymchwiliadau ar y thema Ail Ryfel Byd fe fu Blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad i'r Amgueddfa Ryfel ym Manceinion.

Roedd yn werth y daith bell i gael yr ymdeimlad o fyw'n y cyfnod, a chawsom ddiwrnod gwerth chweil.

Diolch i'r rhieni a ddaeth hefo ni: Mr Rob Hall, Mrs Robina Shaw a Mrs Marie Howorth.

Diwrnod Gwyrdd



Ar yr 17eg o Hydref cynhaliwyd diwrnod gwyrdd yn yr ysgol fel modd o gefnogi elusen 'maint cymru'.

Bu'r cyngor ysgol wrthi'n brysur yn trefnu stondinau amrywiol – enwi'r mwnci, cacennau bach, peintio wyneb, peintio ewinedd a twba lwcus!

Roedd pawb o bob dosbarth wedi gwisgo gwyrdd I ddod I'r ysgol a cafwyd gwasanaeth a gweithdai gan Guto Dafydd sy'n gweithio I'r elusen.

Soniodd am yr effaith mae dadgoedwigo a newid hinsawdd yn gael ar ein byd a'r problemau sy'n codi o weithredoedd dyn.


Llwyddwyd i godi £475 o bunnoedd, a fydd yn cael ei ddyblu drwy gynllun punt am bunt. Digon o arian felly I ariannu 1900 coeden! 4 coeden I bob punt!

Dyddiadau i'w Cofio

Ffair yr ysgol - 30/11/17

Cyngerdd Cyfnod Sylfaen - 12/12/17 a 13/12/17

Cyngerdd Adran iau - 14/12/17



Priodi i ennill eiddo

Efallai ei fod yn digwydd heddiw! Roedd yn bendant yn digwydd ers talwm, yn enwedig ymhlith teuluoedd yr uchelwyr, ac yr oedd un o'r priodasau rheini yn gyfrifol am i deulu'r Faenol ddod yn berchnogion ar y tir a ddaeth yn ddiweddarach yn Chwarel Dinorwig. Mae rhan o'r hanes yn cael ei ddyfynnu yn llyfr William Williams – "Llanberis a'r Amgylchedd" a gyhoeddwyd yn 1892. Daw'r dyfyniad o hanes ychydig manylach a ymddangosodd yn "Y Gwyliedydd" yn 1830, ac y mae'r ffeithiau'n cael eu cadarnhau yn llyfr achau cynhwysfawr "Griffith's Pedigrees."

Roedd Meredydd ab Ifan o Gwm Penamnen, Dolwyddelan wedi byw am gyfnod yn y Crug, Llanfairisgaer. Yn ystod ei oes, prynodd Gwydir yn nyffryn Conwy, a dyna ddechrau llinach bwerus Wynniaid Gwydir. Ei fab hynaf, John Wynn (Syr yn ddiweddarach) ddaeth yn gyfrifol am y stad honno, ond roedd ganddo hefyd fab arall o'r enw Rhys Wynn, a briododd Margaret, merch ac aeres Llwyn Bedw, plwyf Llanberis. Mae'n ymddangos fod Llwyn Bedw bryd hynny yn berchen tir ar yr Elidir ac ar y llethrau gyferbyn ac yn ymestyn drosodd i Waun Cwm Brwynog. Credir fod Rhys Wynn ap Meredydd a'i wraig Margaret wedi byw yn y Ty Canol, Gwaun Cwm Brwynog. Bu iddynt bedwar o blant. Priododd eu mab hynaf, Sion ap Rhys Wynn ag Annes neu Agnes, merch Castellmarch o Lŷn. Roedd ganddynt chwech o blant, a Humphrey, eu mab hynaf a etifeddodd Llwyn Bedw. Pan briododd efo Catherine Evan Goch o Lanengan, symudodd i'r ardal honno i fyw, a daeth cysylltiad y teulu â phlwyf Llanberis i ben, oherwydd yn ôl "Griffith's Pedigrees", yr Humphrey hwn fu'n gyfrifol am werthu stad Llwyn Bedw: "he sold his lands, on which now stand the far-famed Dinorwic Quarries to the Williamsses of Vaynol."

Trueni nad oes cofnodion o hen stad Llwyn Bedw wedi goroesi i gael mwy o wybodaeth.

O'r hanes, gellir gweld mai priodasau rhwng teuluoedd o dirfeddianwyr a geir yn y cyfnod hwn. Roedd yr uchelwyr Cymreig yn prynu, gwerthu a chyfnewid tir er mwyn ehangu eu stadau, a phriodi â merched tîrfeddianwyr eraill oedd un dull o wneud hynny. Trwy briodas daeth Llwyn Bedw i feddiant y Wynniaid a'i werthu i'r Faenol, ond nid dyna ddiweddd y cysylltiadau teuluol! Roedd Humphrey (ap Sion Wynn ap Rhys Wynn ap Meredydd) a werthodd Llwyn Bedw i'r Faenol, wedi gwerthu i aelod arall o deulu'r Wynniaid. Roedd Margaret, gwraig William Williams, Y Faenol yn or-or wyres i hanner brawd ei daid, Rhys Wynn ap Meredydd, sef Humphrey Wynn arall. Dyna beth oedd cadw gafael ar diroedd o fewn y teulu!

A phe bai amser – a gofod – yn caniatáu dilyn hynt a helynt holl ddisgynyddion Meredydd ab Ifan, byddai'n llenwi cyfrolau. Oherwydd mae'n ymddangos fod Meredydd yn 'dipyn o dderyn'. O'i wraig gyntaf roedd ganddo ddeg o blant. O'i ail wraig roedd ganddo ddau o blant, a naw arall o'i drydedd gwraig – er fod ei ail wraig yn dal yn fyw wedi marwolaeth ei drydydd! A does dim son am ysgariad! Dyna un ar hugain o blant a gyfrifid yn gyfreithlon. Ac yr oedd yn cydnabod naw o blant anghyfreithlon eraill o bedair 'gwraig' arall. A phe bai ond eu hanner wedi priodi, dyna glymu stadau ac etifeddion eraill i gorlan gyfoethog Wynniaid Gwydir.

Tybed beth fyddai wedi digwydd i'r fro pe bai Margaret Llwyn Bedw wedi ei geni'n fachgen, ac yntau wedi etifeddu tir Elidir. Sut fath o chwarel a sut fath o amodau gwaith fyddai wedi wynebu gweithiwyd cyffredin yr ardal?

Pwysigrwydd cadw cofnodion ysgrifenedig


Yn "Y Drych", fis Awst 1900 y darllenaais hanes marwolaeth Moses Rowlands, Llanberis yn 87 mlwydd oed. Nid oes cofnod hyd yn oed o enw ei gartref, ac ni chyfeirir at deulu na pherthnasau. Yr unig wybodaeth a roddir yw mai Ty'n y Coed oedd ble cafodd ei eni a'i fagu, ond fod y tŷ hwnnw erbyn troad y ganrif yn adfeilion yng nghanol tomennydd sbwriel Chwarel Dinorwig.

Ond mae'r frawddeg sy'n cloi cofnod ei farwolaeth yn adrodd cyfrolau: "Y cofiadur gorau oedd yn fyw... mae'n golled enfawr fod yr ystôr o wybodaeth hynafiaethol a feddai wedi disgyn i'r bedd gydag ef."

Gwybodaeth ar y côf oedd ganddo felly, a neb mae'n amlwg wedi cofnodi'n ysgrifenedig yr holl "wybodaeth hynafiaethol" oedd ganddo. Tybed faint o hanes Llanberis a'r cylch sydd wedi mynd i ddifancoll o ganlyniad i'w farwolaeth?

A pha mor wir yw hynny, hyd yn oed heddiw, gyda cymaint o bobl yn byw i oedran teg ac yn cofio digwyddiadau o'u plentyndod – ond heb eu cadw'n ysgrifenedig. Ac y mae hynny'n eithriadol wir lle bo hen luniau a ffotograffau yn y cwestiwn. Mewn sawl drôr mewn sawl cartref led-led y fro mae llwyth o luniau teuluol neu luniau o ddigwyddiadau pentrefol – a dim dyddiad nac enw wedi eu cofnodi ar gefn y lluniau!

Does dim rhaid disgwyl tan fis Ionawr i wneud adduned blwyddyn newydd! Beth am fynd ati yn ystod gyda'r nosau tywyll y gaeaf i labelu yr holl luniau sydd yn eich meddiant ac erbyn dyfodiad y gwanwyn, bydd y cyfan wedi eu gorffen, a chewch anghofio am yr adduned.



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



Clwb Eryri

Gyda diolch i Meira Evans, Caernarfon (Llanberis gynt) am gysylltu i roi gwybodaeth am y llun o aelodau Clwb Eryri a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf. Mae'n gallu dyddio'r llun, ond yn ansicr o'r lleoliad. Dyma'i sylwadau:

Mae gen i gopi o'r llun gan ei fod yn cynnwys llun o fy nhad Owen Emlyn Jones (Nowi Maes Llwyn).

Tynnwyd y llun ar drip blynyddol Clwb Eryri ym mis Mehefin 1975. Bu farw fy nhad yn frawychus o sydyn y Rhagfyr canlynol.

Ychydig o wythnosau ynghynt bu farw un o'i ffrindiau pennaf Dafydd Parry a oedd hefyd yn aelod o'r Clwb.

Allai ddim a bod yn sicr o union leoliad y llun, ond dw i'n cofio mynd am dro efo ffrind a dod ar eu traws yng Nghapel Curig.

Mae sawl wyneb cyfarwydd yn y llun, ond does gen i ddim enw i bob un.

O'r chwith i'r dde y rhes gefn:

Y 3ydd Llion Jones, Sed Leslie Jones, yna Arwel Hogia'r Wyddfa, 8fed John Gwilym Jones y dramodydd o Groeslon, y 10fed Trefor Erw Fair ac yna fe welwn dop pen Dr Dan Hughes, Now Nant, ddim yn siwr o'r nesa, yna Ifans Gift Shop sef tad Gwilym ac yna Vaughan Jones Waunfawr. Ar ddiwedd y rhes gefn mae Perisfab o Nant Peris.

Y rhes flaen:- yr ail brawd Robin Pen Gwaith ond ddim yn cofio ei enw, nesa mae Harri Gwyn ac yna fy nhad a Rol Williams. Dw i ddim yn nabod y ddau nesa ond yr unig un arall dw i'n nabod yn y rhes flaen ydy Ieuan Jones (Chemist).

Mae'n debyg fod y llun yn dod ag atgofion melys i'm cenhedlaeth i.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328

**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd **CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Y Gymdeithas Undebol
Nos Fawrth, Tachwedd y 7fed, cafwyd noson ddifyr a hwyliog yng ngofal Mrs Pat Jones a'i merch wrth iddynt dywys cynulleidfa o, ar y cyfan, amaturiaid i greu tlysau i addurno coeden Nadolig.
Ar Nos Fawrth, Rhagfyr y 12fed, am 7 o'r gloch, cynhelir Cyfarfod Nadoligaidd dan ofal Y Gweinidog. Bydd lluniaeth ysgafn ar y diwedd.

Sioe Gerdd Perfformir y Sioe Gerdd, 'Gairyn Grawd', yn Festri Capel Coch am 7 o'r gloch, Nos Sul, Rhagfyr y 10fed. Crewyd y "Sioe" gan Derec Williams, Linda Gittins a Penri Roberts ar thema Y Nadolig. Tâl mynediad, fydd yn cynnwys lluniaeth, yw £5. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at elusen "Corwynt Cariad", sef apêl Cymorth Cristionogol yn y Pilipinas.

Pentref Taclus Mae criw Pentref Taclus Llanberis wedi cwtdogi ar eu casglu sbwriel o wythnosol i fisol yn ystod y Gaeaf. Dyma'r Bore Suliau Misol y bydd y casglu'n mynd ymlaen: Rhagfyr 17eg 2017, Ionawr 21ain 2018, Chwefror 18fed 2018. O dan "pentref taclus-Llanberis - tidy village" ar Facebook, fe gewch weld lluniau o Siân Gwenllian a Hywel Williams yn cefnogi'r ymgyrch ym Mis Medi. Bu deifwyr sy'n

ymarfer yn Chwarel Vivian yn cynorthwyo'r gwirfoddolwyr drwy glirio sbwriel ar hyd glannau ac o dan wyneb Llyn Padarn - gwelir eu lluniau hwythau ar Facebook!

Diolchiadau Dymuna, Carol Bedlow a'r plant, teulu'r ddiweddar Mrs Daphne P. Griffiths a fu farw ar y 1af o Hydref, ddiolch i bawb a fu yn ei chynhebrwng, a'r nifer a estynnodd gydymdeimlad tuag atynt. Mae'r arian a dderbyniwyd er cof am Daphne wedi ei gyflwyno i'r Marie Currie Foundation. Diolch i'r Dr Carol Roberts am ei gwasanaeth yn Eglwys Llandinorwig ac i Gwynfor Jones, E.W. Pritchard, am ei drefniadau parchus a chywir.

Diolch Dymuna Ann, o 17 Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w chymdogion a ffrindiau am eu cyfraniadau hael i'w Bore Coffi diweddar. Bydd yr elusen Macmillan yn derbyn y swm o £335. Diolch eto i bawb!

Côr Meibion Dyffryn Peris Yn dilyn gwahoddiad gan Annette Bryn Parri, bu'r Côr yn cynnal, ynghyd ag Annette, noson gerddorol yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Wener, Hydref yr 20fed, er budd Tŷ Gobaith.

Gyda gallu anhygoel Annette yn ein tywys drwy ddegawdau

Ffair Grefftau



Cynhaliwyd Ffair Grefftau lwyddiannus yn y Ganolfan yn ystod y mis, a hynny er gwaethaf y tywydd garw. Gyda diolch i bawb a gefnogodd y fenter.

Oedfaon Capel Coch

Tachwedd 26ain: 10.30yb Oedfa Deulu

Rhagfyr 3ydd: 10yb Mr John Roberts; Syh Parti Bytholwyrdd - Carol a Chân

10fed 10yb Y Gweinidog

17eg: 10yb Oedfa; Syh Gwasanaeth Nadolig y Plant

24ain: 10yb Y Gweinidog

25ain: 10yb Y Gweinidog - Oedfa Gymun

31ain: 10yb Y Parchedig Euron Hughes


o fiwsig/caneuon o fyd y darluniau byw, y Côr ar ei orau a lluniaeth ysgafn arbennig gan Aneuryn a'i staff, cafwyd noson fythgofiadwy. Cyflwynwyd £1000 i elusen Tŷ Gobaith.

Sioe Bypedau Mae'r sioe yn cael ei chynnal yn Eglwys Sant Padarn am 3.30 y pnaawn ar 6ed o Ragfyr. Tocynnau yn £2 i blant dan 12 oed. Archebwch docyn drwy ffonio Heather ar 07867982518.

Mae'n cynnwys hefyd de parti Nadolig ac ymweliad ac anrheg gan Siôn Corn.

Dymuna Elizabeth (Lis) a Dei, Dalar Dêg, 7 Lôn y Meillion, Eithinog, Bangor. Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd Lewyrchus i berthnasau a ffrindiau ym mro'r Eco, gan na fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Fandaliaid yn targedu parc gwledig yng Ngwynedd



Mae fandaliaid wedi achosi difrod i lecyn hamdden a chwarae poblogaidd yng Ngwynedd.

Ar noson Calan Gaeaf, 31 Hydref, cafodd meinciau, arwyddion a ffens eu difrodi yn ardal Y Lanfa yn Parc Padarn, Llanberis.

Mae'r ardal, sydd wrth ymyl y parc chwarae plant wrth ochr Llyn Padarn, yn boblogaidd iawn efo pobl leol ac ymwelwyr ac mae peryg bydd y difrod i'r offer yno yn amharu ar fwynhad defnyddwyr y parc dros wyliau'r hanner tymor.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am Barc Padarn yn Llanberis, a bydd staff y Cyngor nawr yn gorfod asesu'r difrod.

Dywedodd Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig Cyngor Gwynedd: "Mae'n drist i weld difrod fel hyn a dwi'n siŵr bydd pobl sy'n defnyddio'r lle chwarae neu sy'n cerdded a mwynhau'r natur ym Mharc Padarn wedi eu siomi.

Mae fandaliaeth ddi-hid o'r math yma yn gostus i drethdalwyr Gwynedd gan y bydd angen i'n swyddogion dreulio amser ar y problem a bydd rhaid talu i drwsio neu adnewyddu'r offer.

"Dyw hyn ddim yn adlewyrchu'n dda ar ardal sydd wedi ennill gwobr Baner Werdd a sydd wedi bod yn leoliad ffilmio i nifer o raglenni natur ar y teledu yn ddiweddar - yn enwedig ar wythnos brysur fel hon pan mae plant lleol yn mwynhau gwyliau hanner tymor.

"Rydym yn erfyn ar y rhai sy'n gyfrifol i barchu eiddo cyhoeddus ac i feddwl am yr effaith eu hymddygiad ar y gymuned leol."

Mae'r digwyddiad wedi ei adrodd i'r Heddlu. Os oes gan unrhyw un wybodaeth am y digwyddiadau yma, dylech gysylltu â'r Heddlu ar 101 neu Uned Parciau Gwledig Cyngor Gwynedd ar 01758 704066.

TUDALEN YR IFANC



Os ydych chi eisiau rhywbeth gael ei wneud, weithiau rhaid gwneud eich hunain. Mi'r ydym ni, fel grŵp o bobl ifanc o ardal yr Eco wedi bod yn cwyno ers tro byd, erbyn hyn, nad oes yna ddigon o gigs yn lleol. Ychydig o fisoedd yn ôl, cyhoeddwyd erthygl yn datgan y pryderon hyn ac yn galw ar ein cymunedau ni i roi cyfle i'n bandiau ifanc ni gael magu eu crefft yn lleol. Felly, mi benderfynom ni ein bod ni am ateb y broblem hon drwy drefnu ein gigs ein hunain. Cyffrous...?

Yn llwch hen gigs y Bedol, y Fricsan a'u tebyg, mi fydd Gigs y Gilfach Ddu yn codi fel ffenics ffyrnig dros dwmpathau llechi Dyffryn Peris. Nid bodoli'n ddistaw fydd sîn gerddorol bro'r Eco mwyach, ond un fydd yn gweiddi ac yn sgrechian i ysgwyd seiliau'r hen chwarel. Nid hen amgueddfa fydd y Gilfach Ddu, ond symbol o dân ac awch yr ifanc i greu seiniau newydd, gan wthio'n pentref ni i'r unfed ganrif ar hugain. Bydd y cyfan yn dechrau gydag un gig yng Nghlwb Llanberis ar y 28ain o Ragfyr eleni, gyda'r band lleol, Alfa, yn cefnogi un o fandiau mwyaf cyffrous y blynyddoedd diwethaf, Y Reu. Mae llawer mwy o fanylion ar ein tudalen Facebook (Gigs y Gilfach Ddu), neu e-bostiwch gigsgilfachddu@gmail.com. Dewch draw, a mwynhewch rai o artistiaid mwyaf blaengar y sîn Gymraeg, a hynny yn eich ardal chi eich hun.

Megis dechrau fydd hyn, wrth gwrs, a bydd nifer o nosweithiau amrywiol yn cael eu cynnal yn y dyfodol, gan ddod a mwy o gerddoriaeth, barddoniaeth a'r celfyddydau'n gyffredinol i'r fro. Bydd anghenion celfyddydol pawb, o bob oed, yn cael eu cydnabod, wrth i ni dyfu fel grŵp awchus o drefnwyr. Buan iawn y dewch i sylweddoli nad symbol o'n hanes yw'r Gilfach Ddu mwyach, ond symbol o'r dyfodol cyffrous hwn sydd o'n blaenau.



SŌN AM SÎN: GIGS Y GILFACH DDU!

Taith Patagonia Urdd 2017



Pnawn gwener, 20fed Hydref, roeddwn yn stesion Bangor, yn aros am y tren i Gaerdydd ac yn teimlo'n gyffrous dros ben. Roeddwn i, o'r diwedd, ar ôl blwyddyn o godi arian, ar fy ffordd i Batagonia.

Taith oedd hon oedd wedi cael ei threfnu gan Urdd Ieuencid, ac roeddwn i yn un o'r 25 ffodus i gael fy newis.

Roedd y daith yn hir, aros noson yng Nghaerdydd, bws i Lundain, hedfan i Buenos Aires via Madrid cyn cyrraedd, o'r diwedd, yn Nhrelew, Patagonia diwedd pnawn dydd Llun. Fodd bynnag, roedd yr hyn oedd yn fy aros yn werth bob cam o'r daith.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau.

Mae'n rhaid i mi sôn am y bwyd. Roedd y bwyd yn eithriadol o neis. Roedd y stec yn ardderchog. Roedd yr asado, math o farbeciw lle mae oen cyfan yn cael ei rostio'n araf, yn fendigedig. Wedyn dyna'r empanadas a'r te Cymreig gyda'r holl gacennau blasus. Yn sicr, doeddwn i ddim yn llwgu!



Wedyn, rhaid sôn am y bobl. Roedd pawb ymhobman yn glên ac yn groesawgar. Cawsom gyfarfod teulu'r Green ar eu fferm (a reidio ceffyl am y tro cyntaf), y plant yn Ysgol Trevelin ac Ysgol yr Hendre, y myfyrwyr yng Ngholeg Camwy, chynulleidfaoedd brwd mewn cyngherddau ac yn Eisteddfod Chubut. Dwi ddim wedi gorfod canu gymaint erioed. Roedd pawb yn falch o'n gweld.

Roedd gweld y pengyniaid yn Punta Tombo yn brofiad bythgofiadwy a chefais hwyl yn rafftio yn Esquel yn nŵr gwyllt Challhuaquen.

Mi wnaeth y pythefnos basio yn llawer rhy sydyn ac mae hynna i ddiolch i'r 24 ffrind nes i wneud ar y daith. Hoffwn ddiolch i'r staff aeth â ni, Hannah Wright, Lois Hedd a Dan Rowbotham a hefyd staff Menter Iaith Patagonia, Anne, a Jenny. Diolch hefyd i bawb wnaeth fy nghefnogi drwy eu cyfraniadau ariannol, hebda chi ni fuasai'r daith yma wedi bod yn bosib. Cefais brofiad bythgofiadwy!

Osian Evans

Dathlu a chodi arian



Ddydd Gwener, 20 Hydref 'roedd Emerson ac Awel Hughes o Llanberis yn dathlu 61 mlynedd o fywyd priodasol. Cawsant gyfle i ddathlu'r achlysur yng Ngwesty Dolbadarn yng nghwmni teulu a ffrindiau. Mae Emerson yn aelod ffyddlon o Gor Meibion Dyffryn Peris ers blyneddau lawer, ac ar noson y dathlu 'roedd y cor ynghyd ag Annette Bryn Parri yn perfformio er mwyn codi arian i Ty Gobaith.



'Roedd yn noson hwyliog iawn, a llwyddwyd i godi £1000 at achos mor deilwng Yn y llun, o'r chwith i'r dde, mae - Gwyn Parri, Beverley Bradley (Ty Gobaith), Annette Bryn Parri, Aneurin Jones a Mari (Gwesty Dolbadarn).

Gweler hefyd newyddion Llanberis.

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER
POB
ACHLYSUR

DEWCS MAE
O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a

John Brynafon
LLANRUG

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



Ar ben arall i'r lein

Dyma ni un waith eto gyda blwyddyn arall wedi hedfan heibio, a dyma'r tro cyntaf ers blynyddoedd lawer i ni allu dweud ein bod yn edrych ymlaen am 2018. Drwy gysidro canlyniadau 2017 does dim rheswm i ddatgelu'r ffaith fod pethau'n gwella, er fod dechrau'r tymor wedi bod yn eithriadol o araf ar yr afonydd ond fel agorwyd y drws ar Awst, amlwg oedd i pawb bod nifer fawr wyniadau yn rhedeg y Seiont. A drwy ganu tipyn ar fy nghloch fy hun cefais wyniedyn hyfryd 8 bwys o'r Ffyniog.

Dyma'r gwyniedyn trymaf o ddyfroedd y gymdeithas eleni, felly bydd Tarian Vyrnwy Evans yn ymlwybro tua Bethel yn dilyn y pwyllgor blynyddol. A thra'n canu'r hen gloch 'na cefais eog am tua 12 pwys, eto o'r Ffyniog, yn ystod wythnos olaf Hydref. Disgyn i'r un bluen â'r gwyniedyn, sef Cascade 12, a'r pleser mawr oedd fy mod wedi ei chlymu fy hun. Peidiwch â bod yn hir yn archebu rhai o'r fath!!

Un peth o syndod oedd fod digonedd o bysgod o gwmpas am y tro cyntaf ers blynyddoedd, a neb yn pysgota, felly 'roeddwn yn cael yr afon i mi fy hun. Gwell nag unrhyw bysgota preifat ecschwsif ar unrhyw afon yng ngogledd Cymru. Efallai bod llawer yn rhagdybio penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i'w hymgyngoriad i ddeddfrydu ar orfodi atal pawb rhag cadw rhyw un neu ddau at y badell. Mae gwrthwynebiadau ysgubol wedi bod i'r cynigion a cawn weld be fydd ymateb yr awdurdod llesg yma at ddechrau'r flwyddyn.

Er bod llusgo traed ofnadwy wedi bod gyda phroblemau Llyn Padarn, pum mlynedd ar ugain i fod yn gywir, ond unwaith y gwnaeth CNC a Dŵr Cymru gydnabod y broblem a phenderfynu gweithredu mae pethau yn gwella'n eithriadol o gyflym. Un esiampl yw'r cynllun magu torgoch, er mai siom yw bod y gwaith deori yn mynd ymlaen

yn Neorfa'r Cynrig ger Aberhonddu, pan y buasai'r gwaith yn gallu cael ei wenud cystal yn Neorfa Crawia, rhyw bedair milltir i ffwrdd. Mi wna i adael hynna fel ag y mae ar y foment a llongyfarch staff y Cynrig am safon arbennig y torgoch bach eleni. Ar 6ed a 9ed. Tachwedd fe drosglwyddwyd tua 14,000 o'r torgochiaid bychan yma i Padarn (lluniau yn y rhifyn nesaf). O gysidro'r llafur sy'n mynd i weithredu'r cynllun

yma mi fydda i'n meddwl yn reit ddifrifol am be sy'n mynd ymlaen yng nghoridorau dirgel CNC. Mae pawb, iawn yn meddwl bod Bili Dowcars neu, fel y gelwid nhw gan Closs, - Llanciau Lladudno yn adar sy'n bwydo'n unig ar bysgod. Mae pump o'r cnafon pluog yma'n byw ar Lyn Padarn ac yn clwydo ar fwi mesur CNC. Rwan ta, rydym wedi bod yn cwyno am dros bedair blynedd ynglŷn â hyn am fod y bwi clwydo 'ma ond rhyw 200 llath o'r Gilfach Ddu, sef yr union le ble mae'r torgochiaid bychan yn cael eu gollwng i'r llyn.

Mae'n ffaith - a dim jest ond o ffeithiau'r gymdeithas ydi hyn, ond gan rhai o'r

arbenigwyr pysgodfaol. Mae un Llanc Llandudno eisiau bwyta pwys o bysgod pob dydd at ei gynnal. Felly mae'n rhaid i griw Padarn fwyta beth bynnag bum pwys o bysgod pob dydd. Mae'r rhain yn edrych mor dda gyda sglein ar eu plu, mae'n amlwg eu bod yn cael eu bodloni'n eithriadol ar bysg ein dyfroedd. Ond eto yn dilyn pedair blynedd o ddod â hyn i sylw CNC cefais, ar 6ed Tachwedd, olwg ar ryw ddyfais sydd am gael ei gosod ar y bwi i ddychryn yr hen lanciau i ffwrdd. Cawn weld pa mor effeithiol fydd hyn. Ond o leiaf mae rhywbeth am gael ei wneud. A minnau mor ddrwgdybus yn meddwl bod Cyfoeth Naturiol Cymru dan yr argraff bod y llanciau pluog 'ma ddim yn bwyta pysgod ond yn cael eu bodloni ar fwyta cwningod ar y Ddol! Dywedodd - a wna i ddim o'i enwi - wrthyf y diwrnod o'r blaen,

"Ew does na arian yn cael ei roi gan y cyngor i Llanber dwad. Roeddwn yn meddwl i ddechrau bod y cleddyf mawr sy'n dod i'r pentref at ddefnydd chi'r sgotwrs i ddifa'r billi dowcars na."

"Dim llawer o obaith am hynna," oedd fy ateb. Ond cofiwch efallai y daw rhyw Arthur o rhywle a'i thynnu o'r gwely concrit fydd yn ei dal ar lan y llyn.

Mae un peth yn sicr, mi fuasai pedair mil ar ddeg o bunoedd o fuddsoddiad i ddatblygu pysgodfeydd y fro y dod â llawer mwy o elw i'r ardal, ond yn anffodus nid fel yna mae pethau yn gweithio.

Hwyl am rhyw bythefnos.

Huw Price Hughes

FFERM FÊL YR WYDDFA

NADOLIG LLAWEN

A BLWYDDYN NEWYDD DDA

SNOWDON HONEY

FARM

STRYD FAWR LLANBERIS

Ffon- 870218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

GWIN A MEDD

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM MECWS PEN Y BRYN

LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268

70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526



Ysgol Brynrefail



Noson agored

Ar nos Fawrth, Tachwedd 14eg cafwyd noson agored hynod o lwyddiannus yn yr ysgol ar gyfer plant blwyddyn 6 a'u rhieni. Daeth lluo o bobl draw i gael blas o'r hyn sy'n digwydd yma ym Mrynrefail. Wedi cyflwyniad gan y Cygor Ysgol, gair gan y Pennaeth, Mr Arwyn Williams a chyfle i wrando ar Fand Ysgol Brynrefail arweiniodd disgyblion blwyddyn 12 y plant a'r rhieni i wahanol adrannau'r ysgol lle roedd gweithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y plant. Rhoddwyd pecyn arbennig i bob plentyn ac ynddo roedd cyfle i gystadlu am dabled Amazon Fire trwy ddarganfod llythyren arbennig ym mhob adran a defnyddio rheiny i lunio gair penodol. Enillydd y gystadleuaeth oedd Jac Williams o Ysgol Gwaun Gynfi. Fe'i gwelwch yn y llun yn derbyn ei wobwr gan Mrs Anwen Edwards, Pennaeth Blwyddyn 7 adeg ei ymweliad diwrnod â'r ysgol gan bod blwyddyn 6 ysgolion cynradd y dalgylch wedi treunio diwrnod hefo ni yn yr ysgol rhwng Tachwedd 13eg a'r 16eg. Gobeithio bod pawb a fu yma'n ymweld wedi mwynhau'r profiadau a drefnwyd a'r croeso cynnes!

Taith Pa

Ychydig dd...
roeddem y...
yr ysgol oe...
Batagonia...
Osian Evan...
bythefnos...
yma o'r Ari...
yn sgil hyn...
cyfleoedd i...
di-ri, yr hyn...
bach Ysgol...
meddwl bo...
hwythau'n...
anhygoel m...

Eis

Nos la...
Thurs...

Tocynn...
Tickets...

Pr...
o...

YSGOL BRYNREFAIL
Capelau gylfodl a'u o'r cyfnew

Noson Agored / Open Evening
Dydd Mawrth Tachwedd
14ed 5.25 - 7.00 yfyr

Uchelgais Farch Dywiroch

Dewch draw i gael blas ar yr ysgol!

- Bydd croeso cynnes i chi yn y neuadd
- Cyfle i sgwrsio a chael paned
- Cyfarfod y Pennaeth a'r staff
- Cyfle i holi cwestiynau
- Gweithgareddau i'r plant
- Cwis a chyfle i ennill Amazon Fire!
- Cyfle i grwydro'r ysgol
- Perfformiadau Addysg Gorfforol

Cyfle i weld adrannau'r ysgol:

- Cymraeg
- Saesneg
- Ffrangeg
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth
- Dyniaethau
- Technoleg
- TGCh
- Cerdd
- ADY - Anghenion Dysgu Ychwanegol

Croeso cynnes!



agonia!

iwrnodau cyn gwyliau'r hanner tymor
n ffarwelio â thri disgybl blwyddyn 13
dd wedi eu dewis i fynd ar daith i
gyda'r Urdd. Y tri oedd Dafydd Orritt,
s a Gwenno Hughes. Treuliodd y tri
bythgofiadwy yn y rhanbarth Gymreig
annin a chael profiadau bythgofiadwy
ny. Wedi eu holi, er gwaetha'r
wneud pethau fel gweld pengwiniad
n fydd yn aros yn y cof yw clywed plant
y Gaiman yn siarad Cymraeg. Roedd
d y plant yma yn gallu siarad yr iaith a
byw filoedd o filltiroedd o Gymru yn
hedden nhw. Croeso noll!

teddfod Ysgol 2017

u 7fed o Rhagfyr 2017, 6:30yh
day 7th of December, 6.30pm

au ar werth yn Swyddfa'r Ysgol
available from the school office

is Mynediad / Entrance Fee

edolion	£5:00	Adults
Plant	£3:00	Children



Taith Addysgol Hanes i Berlin a Krakow

Yn mis Ebrill eleni, aeth tua deugain o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Bryn-refail a'u hathrawon ar daith addysgiadol i Berlin yn yr Almaen ac i Krakow yng Ngwlad Pwyl. Trefnwyd y daith gan Mr Iwan Barker-Jones, Pennaeth y Gyfadran Ddyniaethau. Cychwynnodd y daith gyda siwrne hir o'r ysgol i faes awyr Gatwick, ac yna hedfan i Berlin Schönefeld. Yn fuan ar ôl cyrraedd aethom ar daith gerdded o amgylch y ddinas, wedi ei dywys gan Brydeinwraig oedd wedi byw yno ers rhai blynnyddoedd. Gwelsom rai o brif atyniadau'r ddinas, gan gynnwys Giat Brandenburg, Y Reichstag, Cofeb Iddewon Ewrop, a'r gwesty lle wnaeth Michael Jackson hongian babi drwy'r ffenest!

Drannoeth, aethom i weld rhai o amgueddfeydd y ddinas, sef Amgueddfa Check-point Charlie a'r amgueddfa Iddewig. Yna, cawsom dair awr yn rhydd i gael gweld y ddinas ar ein liwt ein hunain. Dewisiais i a Gerwyn i wneud y trip ar y tren i weld yr Olympiastadion, sef lleoliad Gemau Olympaidd enwog 1936. Ar ôl i bawb ymgynull unwaith yn rhagor aethom am swper, cyn i Mr Barker-Jones roi gwers i ni gyd ar sut i fowlio deg!

Siwrne hir i Krakow dros nos oedd hi nesa, a chyrraedd y ddinas hanesyddol fel roedd hi'n dihuono. Ymweliad i ffatri enwog Oskar Schindler oedd nesaf, cyn cael taith wedi ei thywys o amgylch ardal Iddewig hanesyddol y ddinas. Gyda'r nos treuliom amser yn sgwar enfawr Kazimierz, cyn dychwelyd i'r gwesty er mwyn cychwyn yn gynnar y bore wedyn, gan fod ymweliad i wersyll Auschwitz yn ein disgwyl. Roedd hyn yn sicr yn un o uchafbwyntiau'r daith, sef cael gweld y gwersyll dychrynlyd yma. Ar ein ffordd yn ôl i'r ddinas, cawsom fynd mewn i fwynfa halen Wieliczka, ble roedd cadeirlan wedi ei cherfio allan o halen ddegau o fetrau o dan yr wyneb. Gyda'r nos aethom unwaith yn rhagor i sgwar fawr Kazimierz i gael gweld yr adeiladau godidog, a chanu a dawnsio a gwleda mewn noson Pwylaidd.

Y bore wedyn, roedd un stop arall yn amgueddfa Galicia, ble cawson ni'r profiad dirdynol o glywed goroeswraig o'r Holocaust yn siarad am ei phrofiadau, cyn i ni fynd i faes awyr John Paul II i hedfan yn ôl i Gatwick. Yn sicr roedd pawb wedi llwyr ymlâdd wedi cyrraedd yn ol i'r ysgol. Hoffwn ddiolch i Mr Barker-Jones a'r staff am eu gwaith yn ystod y trip, a gobeithio y bydd teithiau eraill i ddod yn y dyfodol.

Coginio Adra ar yr Aga

Menter newydd Elen Jones ac Eirlys Williams ydi Coginio Adra ar yr Aga sydd yn cynnal nosweithiau cartrefol o goginio ar yr Aga yng nghartref Elen yn Star, Ynys Môn. Bu Elen, sydd bellach wedi ymgartefu ar yr Ynys, yn gweithio yn Siop Aga Machynlleth am dros naw mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae hi wedi dod i adnabod nifer o gwsmeriaid, yn ogystal â ffrindiau, o bob cwr o Wynedd a Môn. Un o Fethel, Caernarfon, ydi Eirlys sy'n gweithio fel arddangoswr Aga, ac sydd wedi gwneud sawl arddangosfa ym Machynlleth. Yn ogystal â hyn, roedd Eirlys yn gweithio yng Ngholeg Menai am wyth mlynedd ar hugain, ond bellach wedi ymddeol.

Penderfynodd y ddwy i ddod at ei gilydd unwaith eto i ddechrau menter, gyda'r Aga yn ganolog i hwnnw. Cynigir nosweithiau lle'r ydych yn medru ymlacio a mwynhau'r bwyd da a'r cwmni da. Cewch groeso cynnes gyda gwydr o win neu ddiod feddal a chanapés bendigedig yn syth o ffwrn yr Aga.

Heb os, rhan orau'r noson yw'r wledd o bedwar cwrs i chi ei fwynhau, gydag Eirlys yn esbonio pob dim fel rhan o'r arddangosfa. Mae yna le i rhwng wyth a deg ar y tro, a'r gobaith ydi cynnal y nosweithiau oddeutu dwywaith y mis. Mae modd hefyd cael te prynhawn neu bryd ar achlysur arbennig, lle byddwch yn cael pryd blasus wedi ei weini i chi mewn awyrgylch cartrefol.

Gyda'r Nadolig yn nesáu, byddwn yn cynnal arddangosfeydd Nadoligaidd er mwyn dathlu'r ŵyl.

Am fwy o fanylion cysylltwch ag Elen ar 01248 716589 neu ebost: eirlyswilliams@hotmail.com

Yr Hydref

O'r holl liw! Nid oes diwedd, - y demel
dry'n domen a phydredd;
yna byw 'ym mhridd y bedd'
i weithio'n ôl i'r lleithedd.

Gŵyl Nadolig

Y Crêwr ddaeth i'r Cread - i hanes
hen ddinas a threthiad,
Nadolig yr ymgnawdoliad
mab saer y Tŷ'n Aer y Tad.

Amser Popeth Byw

Derwen fawr o fesen fach - hon a fyynn
gyfannu ei llinach,
ein dyddiau ninnau a'n hach
a ranna'r un gyfrinach.

Norman Closs

Llyfr Lliwio arall gan yr artist o Llanrug



A hithau wedi ei chlustnodi yn Flwyddyn y Chwedlau yng Nghymru, mae artist wedi mynd ati i dathlu'r gorau o chwedlau Cymru drwy gyhoeddi dilyniant i lyfr lliwio poblogaidd.

Mae Lliwio'r Chwedlau / Colouring Welsh Tales gan yr artist Dawn Williams a gyhoeddir yr wythnos hon yn cynnwys 21 o luniau hyfryd i'w lliwio, yn seiliedig ar chwedlau poblogaidd Cymru, gan gynnwys golygfeydd o straeon Blodeuwedd, Cantre'r Gwaelod, Twm Siôn Cati, Rhys a Meinir, Santes Dwynwen, a Culhwch ac Olwen.

Cafodd Dawn Williams ei magu yn Sir Fôn ond erbyn hyn mae'n byw yn Llanrug gyda'i gŵr a'u tri mab.

Mae'r llyfr yn dilyn llwyddiant Lliwio Cymru / Colouring Wales, sef y llyfr lliwio cyntaf Cymreig i oedolion a gyhoeddwyd llynedd gan werthu dros fil o gopiau.

'Yn dilyn llwyddiant Lliwio Cymru dyma'r cyfle perffaith i gyhoeddi llyfr lliwio yn cynnwys golygfeydd o rai o'n prif chwedlau a'n straeon mwyaf adnabyddus ni yng Nghymru' meddai Meinir Edwards, golygydd yng ngwasg Y Lolfa.

'Mae'r lluniau sydd yn y gyfrol hon wedi eu dewis am eu bod yn olygfeydd cyffrous, yn hardd neu'n ddramatig. Maent yn cynnwys rhai o straeon hynafol y Mabinogion fel Culhwch ac Olwen a Blodeuwedd; yn straeon hanesyddol o bwys fel Santes Dwynwen a Gwylliaid Cochion Mawddwy; yn storïau plentyndod fel Gelert y ci, Llyn y Fan Fach a Twm Siôn Cati; ac maent yn dod o bob cwr o Gymru,' meddai Meinir 'Mae'r chwedlau ar ein stepen drws ni ac maen nhw'n tanio'r dychymyg!'

'Rydwn i'n hynod o falch fy mod i wedi cael siawns i greu ail lyfr lliwio Cymreig a hynny'n seiliedig ar y gorau o'n chwedloniaeth ni,' meddai Dawn, 'Mae chwedlau Cymreig yn rhan bwysig o'n diwylliant a'n hanes ni fel Cymry ac wedi ffurfio asgwrn cefn corff ein llenyddiaeth Cymraeg. Gobeithio bydd y llyfryn hwn yn ffordd wahanol o adrodd straeon ac yn galluogi i bobl ymlacio hefyd.'

Gwelwyd twf yng ngwerthiant llyfrau lliwio i oedolion wedi i seicolegwyr honni bod canolbwyntio ar liwio yn cael gwared ar feddyliau negyddol, yn gwella effeithiau straen ac yn ymlacio.

Mae modd cysylltu gyda Dawn drwy 01286 678289, 07572777933, dawnwilliams4@msn.com



**AM BETROL, DIESEL, OLEW ac
AMRYFAL ANRHEGION MODURO
PAPURAU NEWYDD A
PAYPOINT**



**GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM- Y- GLO**



**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN DDA I BAWB**

Ffôn-Llanberis 872046



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

**Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd**

(01286)650552 Mob. 07712779475

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter
fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER
CALENIEB

Menter
 Môn

CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

ERDF
Ynnwylch Cymru
Welsh Government
Erdded a Chymru: Borthwedd yn ein dyfodol
Cymru Ddiwydiol: Borthwedd yn ein dyfodol
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Teithiau Cerdded Rhagfyr

LLUN 4 RHAGFYR 7.00yh
TAITH GERDDED LLEUAD LLAWN O AMGYLCH
LLYN PADARN (4½ milltir)
DIBYNNOL AR Y TYWYDD WRTH GWRS – MAE
RHAID BOD YN EITHA CLIR!
FFONIWCH GARETH AR 07867 810576 WEDI 5yp
AR Y DIWRNOD.

GWENER 8 RHAGFYR 10.00yp
LLANRUG: TAFARNDAL COLL A CAMBYHAFIO!!!!
(2½ milltir)
CYCHWYN: CAE CHWARAE PARC GLANMOELYN
EITHA HAWDD ONM DEWCH A SGIDIAU
CERDDED.

MAWRTH 12 RHAGFYR 10.30yb
TAITH GERDDED AT IECHYD GYDA CAROLINE
MONCRIEFF
CYCHWYN: MAES PARCIO LLANWINDA. £2

MERCHER 13 RHAGFYR 7.00yh
TAITH GERDDED GWYLIO'R SER (2 milltir)
CYCHWYN: MAES PARCIO PRIORDY PENMON
GORFOD BOD YN EITHA CLIR I WYLIO'R SER
OND OS YW HI YN GYMYLOG OND YN SYCH,
DEWCH AM DRO!

IAU 14 RHAGFYR 10.30yb
CERDDED NORDIG GYDA CAROLINE
MONCRIEFF
CYCHWYN: CAFFI MENTER FACHWEN, CWM Y
GLO. £5



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Atgofion ar Gân



Ers mis Tachwedd 2016, mae Canolfan Gerdd William Mathias wedi bod yn cynnal sesiynau cerddorol gyda thrigolion hŷn Gellilydan ac Awel y Coleg, Y Bala dan arweiniad y cerddor Nia Davies Williams. Gwahoddwyd plant o'r ysgolion cynradd lleol i gymryd rhan mewn sesiynau Camau Cerdd gyda Marie-Claire Howorth cyn ymuno i gyd-ganu a mwynhau gweithgareddau cerddorol gyda'r bobl hŷn.

Ers y comisiwn gan Uned Celfyddydol Cymunedol Cyngor Gwynedd mae'r sesiynau wedi helpu dod â phobl at ei gilydd i hel atgofion a mwynhau cerddoriaeth, yn ogystal â chodi hyder a chynnyg cyfle i gyfarfod pobl newydd.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd y sesiynau yn ymestyn i ardaloedd Bethesda a Deiniolen diwedd mis Hydref. Mae'r sesiynau'n agored i unrhyw drigolion hŷn ddod draw am baned a chŵn ac i gwrdd â phobl newydd. Roedd sesiynau Bethesda yn dechrau ar Hydref 27, 10:30 – 11:30 yn Neuadd Ogwen, ac yna bob yn ail wythnos wedi hynny. Yn yr un modd, roedd sesiynau Deiniolen yn dechrau ar Hydref 27, 14:00 – 15:00 yn Nhŷ Elidir. Bydd paned ar gael ar ddiwedd pob sesiwn a bydd plant o'r ysgolion lleol yn ymuno Gwanwyn 2018.

Bydd yna groeso cynnes i unrhyw aelod hŷn o'r gymuned i ymuno â'r sesiynau dydd Gwener.

10:30 - 11:30yb Neuadd Ogwen Bethesda

2:00 - 3:00yp Tŷ Elidir Deiniolen

Am ddim, gyda phaned a chyfle am sgwrs ar ddiwedd y sesiwn Cysylltwch â Canolfan Gerdd William Mathias am fwy o wybodaeth 01286 685 230 / post@cgwm.org.uk

SESIYNAU CERDDOROL BOB PYTHEFNOS I BOBL HŷN

Ymunwch efo ni am baned a chŵn!

Atgofion ar Gân

Gyda : *Nia Davies Williams*

**CANOLFAN GERDD
William Mathias**

Tŷ ELIDIR, DEINIOLLEN
14:00 - 15:00
DYDDIAU GWENER

Hydref 27
Tachwedd 10 + 24
Rhagfyr 8

AM DDIM

OS HOFFECH WYBOD MWY CYSYLLTWCH GYDA
Canolfan Gerdd William Mathias
(01286)685230 / post@cgwm.org.uk

**CANOLFAN GERDD
William Mathias**

**Cyngor Celfyddydol Cymru
Arts Council of Wales**

**Ynnwylch Cymru
Welsh Government**

The National Lottery

Rhif Elusen Cofrestredig / Registered Charity Number: 1084271



Chwip o Steddfod yn Neiniolen



Cafwyd Eisteddfod arbennig o lwyddiannus yn Neiniolen ddydd Sadwrn, yr 21ain o Hydref, pan ddaeth cystadleuwyr o bell ac agos i gystadlu ac i ddiddori'r gynulleidfa tan oriau mân y bore - doedd neb am adael ei sedd nes y daeth y cystadlu i ben wedi 1 o'r gloch y bore! Oedd yn wir, roedd pawb yn gytûn inni fwynhau gwledd o berfformiadau gwych, a safon uchel iawn! Bu'r beirniad cerdd, Robot Arwyn a'r beirniad llefaru, Medi Wilkinson, yn brysur iawn drwy'r dydd, ac roedd pawb yn edmygu gwaith Annette Bryn Parri a Lois Eifion, ein cyfeilyddion medrus. Yn ogystal â phedair awr o gystadlu lleol yn y cyfarfod p'nawn, cafwyd chwe awr o adloniant pur o gystadlu gyda'r nos, gydag ymrafael am yr Ysgoloriaethau i bobl Ifanc ymhlith yr uchafbwyntiau. "Roedd Eisteddfod Deiniolen yn un cyngerdd mawreddog" oedd un sylw ar y cyfryngau cymdeithasol drannoeth yr eisteddfod.

Anfonwyd llu o gyfansoddiadau llenyddol i'w beirniadu gan y prifardd Llion Jones o Fangor hefyd. Roedd yn hyfryd cael ei feirniadaeth yn y seremoni i anrhydeddu llenor y Fedal Lenyddol o 11 - 16 oed, y Fedal Lenyddol o dan 25 oed a'r Gadair. Braf hefyd oedd cael cwmni Martin Thomas llywydd y cyfarfod prynhawn ac Emyr Llewelyn Gruffudd, ein llywydd gyda'r nos, a roddodd eu hatgofion difyr iawn inni, a'u hanogaeth i'r eisteddfod. Yn ddigon addas, roedd gennym lwyfan cludadwy newydd sbon eleni, sydd wedi'i brynu ar y cyd gan fudiadau lleol yn Neiniolen gyda chefnogaeth gan fusnesau fel Magnox, Engie, DMM a Chronfa Ddatblygu Cyngor Gwynedd. Mae'r Pwyllgor am ddiolch am y gefnogaeth hon, ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod gofiadwy a gawsom eleni.

Parhad DEINIOLEN



Canlyniadau Llwyfan Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch 2017.

Canu Dosbarth Meithrin
 1af – Eben; 2 – Guto; 3 – Elsa, Marged, Cai
 Llefaru Dosbarth Meithrin
 1af – Eben; 2 – Guto; 3 – Elsa
 Canu Dosbarth Derbyn
 1af – Wil Dafydd
 Llefaru Dosbarth Derbyn
 1af – Wil Dafydd
 Canu Blwyddyn 1 a 2
 1af – Anian; 2 – Cynan; 3 – Theo, Cadi , Shane
 Llefaru Blwyddyn 1 a 2
 1af – Cynan; 2 – Anian; 3 – Cadi
 Canu Blwyddyn 3 a 4
 1af – Lois; 2 – Jessica; 3 – Ella
 Llefaru blwyddyn 3 a 4
 1af – Deion; 2ail- Glesni; 3ydd - Ella
 Canu Blwyddyn 5 a 6
 1af – Erin Wyn; 2 – Erin Lewis; 3 – Elliw
 Llefaru Blwyddyn 5 a 6
 1af – Erin Lewis; 2 – Elliw; 3 - Ari
 Alaw Werin Blwyddyn 6 neu iau
 1af – Erin Wyn a Erin Lewis
 Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau
 1af Erin Lewis
 Deuawd Blwyddyn 6 ac iau
 1af Erin a Lois
 Canu Emyn Blwyddyn 6 neu iau
 1af – Lois; 2 – Erin Wyn
 Grwp Llefaru blwyddyn 6 ac iau
 1af - Ysgol Gwaun Gynfi – Blwyddyn 3 a 4; 2 – Ysgol Gwaun Gynfi – Blwyddyn 5 a 6
 Parti Canu
 1af – Parti Mawr Ysgol Gwaun Gynfi; 2 – Parti Bach Ysgol Gwaun Gynfi
 Parti neu gor blwyddyn 6 ac iau
 Cor Ysgol Gwaun Gynfi
 Enillydd Cadair Eisteddfod i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gwaun Gynfi am waith Llenyddol: Gwenno Parry
 Enillydd tlws er cof am Mr Iwan Williams, Manceinion am yr ymgais orau yn yr adran gerdd: Erin Wyn
 Enillydd tlws Crud yr Awel, Porth y Gogledd am yr ymgais orau yn yr adran lenyddol blwyddyn 6 ac iau: Gwenno Parry
 Enillydd tlws er cof am Mrs Nancy Edwina Jones am y perfformiad gorau i blant blwyddyn 2 ac iau: Anian
 Enillydd Cwpan er cof am y diweddar Mr W J Eames am yr ymgais orau yn yr adran Adran Arlunio I blant blwyddyn 6 Ysgol Gwaun Gynfi : Teleri Baston
 Enillydd tlws Mary a John am yr ymgais orau yn yr adran llefaru blwyddyn 6 ac iau: Erin Lewis
 Canlyniadau Cyfarfod y Nos
 Unawd Blwyddyn 7-11
 1af – Glesni Rhys – Bodedern: 2 - Tegid Goodman Jones; Caerwys: 3 - Twm Tudor, Llanrhuddlad
 Unawd Pres Blwyddyn 7-11
 1af Elin Dafydd; Deiniolen
 Canu Emyn Blwyddyn
 1af – Brynmor: 2 - Elin Dafydd; Deiniolen a Twm Tudor; Llanrhuddlad
 Ysgoloriaeth yr Eisteddfod Blwyddyn 7-11

Gwydion Rhys; Bethesda a Tegid Goodman Jones; Caerwys
 Unawd Piano Blwyddyn 7-11
 1af – Gwydion Rhys; Bethesda
 Unawd Alaw Werin dan 21
 1af – Celyn Roberts; Porthmadog: 2 - Tegid Goodman Jones; Caerwys: 3 - Twm Tudor; Llanrhuddlad
 Unawd Cerdd Dant dan 21
 1af - Glesni Rhys; Bodedern: 2 - Tegid Goodman Jones; Caerwys: 3 – Elin Dafydd; Deiniolen
 Grwp Ensemble Lleisiol
 1af -Oddeutu'r Bont
 Ysgoloriaeth yr Eisteddfod 16-25 oed
 Steffan Owen; Pentreberw
 Enillydd Cadair yr Eisteddfod
 Cefin Roberts; Bangor
 Enillydd Medal Lenyddol dan 25oed
 Sioned Martha Davies; Gwyddgrug, Caerfyrddin
 Enillydd Medal Lenyddol blwyddyn 7-11
 Non Fon Davies; Talwrn
 Unawd Piano Agored
 1af Gwenno Glyn Brown; Bontnewydd
 Darllen darn heb ei atalnodi
 1af Ellie Williams: 2 Celyn Roberts; Porthmadog: 3 Elin Dafydd, Deiniolen
 Deuawd Agored
 1af Celyn a Canna Roberts; Porthmadog a Glesni ac Elain Rhys; Bodedern
 Unawd Offerynnol
 1af – Gwenno Glyn Brown; Bontnewydd: 2 – Elin Dafydd, Deiniolen
 Unawd Agored
 1af - Steffan Owen; Pentreberw: 2 – Tegid Goodman Jones; Caerwys: 3 – Canna Roberts; Porthmadog: 4 – Celyn Roberts; Porthmadog
 Llefaru Agored
 1af - Celyn Roberts, Porthmadog: 2 - Carys Owen
 Unawd Alaw Werin Agored
 1af – Tegid Goodman Jones, Caerwys: 2 – Celyn Roberts, Porthmadog
 Cwpan Bryn Du am yr ymgais orau adran gwau a gwnio
 Mrs Mona Parry, Deiniolen
 Cwpan Clwb Snwcer am yr ymgais orau adran gwaith coed
 Cian Pleming, Deiniolen
 Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams am yr ymgais orau yn yr adran gerdd dan 21 oed
 Glesni Rhys, Bodedern
 Tlws Y Cerddor dan 25 oed
 Alistair Mahone, Castellnedd
 Stori Fer, Tlws er cof am y diweddar John David Evans, Maes y Dref.
 Sian Esmor Rees, Bethesda
 Ysgrifennu sgets neu eitem ddigri, cwpan coffar diweddar Mrs Dilys Mair Hughes, Ty'n Weirglodd.
 Sandra Morris, Deiniolen
 Tlws Teulu Cae Maen am yr ymgais orau yn yr Adran Celf a Chrefft.
 Catrin Roberts, Deiniolen
 Llongyfarchiadau i Elin Dafydd ar ei llwyddiant. Cafodd 1af ar yr Unawd Offerynnol yn Eisteddfod Deiniolen 2018. Diolch i Lois Eifion, ac i Gavin Saynor am ei hyffordi.

Eglwys Crist Ar fore Sul, 3 Rhagfyr, am 10.30a.m.bydd gwasanaeth arbennig ar thema Yr Adfent yn Eglwys Llandinorwig a hithau yn Sul cyntaf yr Adfent. Mae'r Canon Idris Thomas, Glanrafon wedi llunio gwasanaeth am y tymor pwysig hwn ar gyfer pob oed. Bydd plant yr Ysgol Sul yn bresennol ac yn cymryd, rhan ynghyd ag oedolion. Croeso cynnes i bawb.
 Ar Noswyl y Nadolig, nos Sul 24 Rhagfyr, am 6p.m.bydd Cymun y Nadolig yn yr Eglwys ac fel pob gwasanaeth arall, Cymraeg fydd yr iaith. Croeso i bawb ym Mro Eryri a phawb arall o bob enwad.
Eglwys Crist Eleni cafwyd Diolchgarwch arbennig, gyda diolch i'r Parchedig Jeffrey Hughes, a arweiniodd y Diolchgarwch, i'r Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon, a bregethodd yn amserol ac yn naws y diolch. Cyflwynodd plant yr Ysgol Sul eitemau wedi eu paratoi ar eu cyfer gan athrawon yr Ysgol Sul. Cyflwynwyd rhodd i bob un o'r plant am eu ffyddlondeb bob Sul gan y Parchedig Jeffrey Hughes.
Y Fynwent - mae'r gaeaf ar ei gwarthaf ac mae'r fynwent wedi cael ei thoriad olaf am y flwyddyn, gyda diolch i Mr Berwyn Jones am ei waith di-flino. Pob blwyddyn fe werthfawrogn haelioni, chi garedigion yr ardal a thu hwnt. Rhoddion gan y canlynol:
 Mr a Mrs Gwyn Morris, Rhiwen, Porthaethwy £25
 Mrs Carol Jones, Rhiwlas £20
 Mr Meirion Tomos, 11 Tai

Caradog £50
 Mrs Nancy Williams a'r teulu, 10 Rhes Marian £20
 Mr a Mrs Gareth Wyn Jones, Miskin ger Caerdydd £10
 Mrs Elsie Williams (Coed Mawr gynt) £10
 Dennis, Eira, Ann a Julie £40
 Mrs Mair Foulkes, 3 Tai Bryn Hyfryd Penisarwaen £20
 Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon £30
 Bydd Mr Brian Price ,14 Hafod Olau, neu Mrs Gwen Griffiths, Fron, yn falch o dderbyn eich rhoddion, neu unrhyw aelod o'r Eglwys er mwyn cynnal y fynwent.
Diolch Dymuna Lois, 3 Stryd Newydd, ddiolch o galon am y llu cardiau, galwadau ffôn, arian, blodau a phethau eraill yn dilyn y llawdriniaeth a dderbyniodd yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb, mae'n golygu cymaint, ac mae'n hynod ddiolchgar.
Llongyfarchiadau mawr i Keith Jones, Rhiw Goch, am ennill gwobr Adfocad Rhagorol yng ngwobrau Ynni Gwyrdd Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar.
Cyfarchion Dymuna Dafydd ac Ellen, 1 Pentre Helen, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu ffrindiau a chymdogion gan nad ydynt yn anfon cardiau nadolig eleni.
Sul y Cofio Cafwyd gwasanaeth teilwng iawn eto eleni wrth y Gofeb a daeth torfa dda ynghyd. Diolch i aelodau'r Seindorf, Y Parch John Pritchard, y Cyng Elfed Williams a phawb a cynorthwyodd i drefnu'r gwasanaeth.

ORIEL CWM
 CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

PRISIAU RHESYMBOL
 Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys
 Ffon/ Ffacs-
 (01286) 870882

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GRAHAM A JEAN A PHAWB YN Y

PRINCE OF WALES LLANBERIS

870708

Cwrw Blasus
 Croeso Cartrefol

Parhad DEINIOLEN

Un funud fach ...

Ar 21 Hydref, cafwyd eisteddfod gadeiriol lwyddiannus iawn yn Neiniolen, gyda mwy nag arfer yn cystadlu mewn nifer o gystadlaethau. Nid oedd Annette Bryn Parri wedi gallu cyfeilio yn eisteddfod ei phentref ei hun ers nifer o flynyddoedd, oherwydd y galwadau sydd arni fel pianydd a cherddor proffesiynol. Oherwydd iddi gytuno i gyfeilio eleni, llwyddwyd i ddenu cerddorion o safon uchel, o bell ac agos, i Ddeiniolen. Fel arwydd o werthfawrogiad o waith Annette, ysgrifennwyd y penillion hyn gan Sandra Morris, Tai Caradog, Deiniolen.

I Annette gan Sandra – Hydref 2017.

Mae'r ferch o Dŷ'r Ysgol wedi dod yn reit bell,
Ac os chwiliwch y byd 'ma, chewch chi neb gwell.
Mae'r talent anferthol yn amlwg a chlir,
'Does neb fel hi am chwarae mor bur.
Ma'i di teithio'r byd 'ma, gwneud cyngherddau di-ri,
Ac wedi diddanu enwogion o fri.
Prince Charles, Lloyd Webber heb sôn am Diana,
Mor falch yw Llanbabs o'r seren yma.

Bryn Terfel, Rhys Meirion, Trebor a Trio,
I gyd sydd 'di elwa o'i chyfeilio di-guro.
Hogia'r Wyddfa, Y Steddfod, rhaglenni teledu,
Efo Ann ar y biano, 'does neb yn syrffedu.
Yn briod â Gwyn, ac yn fam i dri,
Ynyr a Bedwyr sydd yn hogia cry'.
Yna Heledd ac Ela, y trysor di-nam
Tra bydd Annette, cheith 'hein byth gam.

Ar ran Deiniolen, gai ddiolch i ti,
Ti wastad yno i'n cefnogi ni.
Cyfeillgar, annwyl, yn hwyliog o hyd.
Dy fysedd cain sy'n werth yr holl fyd.

PARATOADAU

Dyw hi ddim yn mynd yn haws. Os rhywbeth, mynd yn fwy anodd mae hi bob blwyddyn wrth agosáu at y Nadolig a meddwl am rywbeth gwahanol i'w ddweud. Ar un wedd, wrth gwrs, does dim byd newydd i'w ddweud gan mai'r un stori a'r un gwirioneddau sydd i'w hadrodd a'u dathlu bob tro y daw'r ŵyl hon heibio. Ond ar wedd arall, rhyfeddod pethau yw bod rhywbeth newydd yn dod i'r amlwg wrth i ni adrodd yr un hen stori a myfyrio ar yr un hen wirioneddau. 'Rhyw newydd wyrth o'i angau drud a ddaw o hyd i'r golau', medd Robert ap Gwilym Ddu am farwolaeth Crist, a gellir dweud yr un peth am ei eni. Mi fentraf ddweud nad fi yw'r cyntaf eleni i ofyn, 'Ydych chi'n barod at y Dolig?' Mi fentraf hefyd y bydd ambell un ohonoch yn ateb eich bod yn barod, er nad yw hi eto'n ddiwedd mis Tachwedd. Mae'r trefniadau wedi eu gwneud, yr anrhegion wedi eu prynu (a'u lapio) a'r bwydydd wedi eu paratoi neu eu harchebu. Bydd eraill, o bosibl y mwyafrif, yn dweud nad ydych wedi dechrau hyd yma. Wedi'r cwbl, mae mis cyfan o'n blaenau. Yn amlwg, nid yn yr un ffordd y mae pawb yn paratoi at yr ŵyl. Ond ni fydd unrhyw baratoadau a wnaed neu a wneir at y Nadolig eleni yn cymharu â'r hyn a fu ar gyfer y Nadolig cyntaf. Darllenwch yn y Testament Newydd yr hyn sydd gan Mathew a Luc i'w ddweud am eni Crist, ac fe welwch fod ymweliadau'r angel a'i neges i Mair a Joseff yn rhan o'r paratoadau ar gyfer hynny. Felly hefyd ymweliad Mair â'i pherthynas Elisabeth, a'r holl hanes am eni Ioan yn fab i Elisabeth a Sachareias. Ond fel y dengys y cyfeiriadau sydd gan Mathew a Luc at rannau o'r Hen Destament a oedd yn rhagweld geni'r Meseia, yr oedd y paratoadau wedi cychwyn yn gynharach o lawer na dyddiau Mair a Joseff. Dros 700 mlynedd cyn hynny, roedd proffwydi fel Eiseia a Micha wedi cyhoeddi geni'r Meseia. Ond nid dyna ddechrau'r paratoi hyd yn oed. Roedd yn fwriad gan Dduw erioed i anfon Iesu Grist. Ato ef yr oedd Duw'n cyfeirio yng Ngardd Eden pan ddywedodd wrth y sarff, 'Gosodaf elyniaeth hefyd rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau; bydd ef yn ysigo dy ben di, a thithau'n ysigo'i sawdl ef'. O'r cychwyn cyntaf, a hyd yn oed cyn hynny, fel y dengys yr emyn isod, yr oedd Duw yn bwriadu rhoi i'r byd waredwr. Ac o ddechrau'r byd, a thrwy'r canrifoedd, yr oedd paratoadau manwl Duw ar gyfer geni'r gwaredwr hwnnw'n cael eu cwblhau.
Draw mi welaf ryfeddodau
Dyfnion bethau Tri yn Un;
Cyn bod Eden ardd na chodwm
Grasol fwriad Duw at ddyn.
Ethol Meichiau cyn bod dyled,
Trefnu Meddyg cyn bod clwy',
Caru gelyn heb un haeddiant –
Caiff y clod tragwyddol mwy.
Beth yw mis (neu hyd yn oed ddeufis neu dri) o baratoi at y Nadolig o'i gymharu â hynny?

JOHN PRITCHARD

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch ein
hysbysebwr**

NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd DDA

I holl ddarllenwyr ECO'R WYDDFA
oddiwrth BAWB yn



Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Ffôn-(01286) 872304

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

Comisiynu Gweithiwr Newydd

Cafwyd oedfa arbennig iawn yng Nghapel Coch, Llanberis nos Lun, Hydref 23 i groesawu a chomisiynu Catrin Hampton yn Weithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd Cynllun Efe, Caersalem Caernarfon a Scripture Union.

Sefydlwyd Cynllun Efe ym mis Mawrth 2005 gyda'r bwriad o benodi gweithiwr Cristnogol i gydweithio ag eglwys dalgylch Eco'r Wyddfa er mwyn cyflwyno'r Efengyl i ieuentid y fro. O'r cychwyn, felly, y nod, fel yr awgryma'r enw, oedd cyflwyno'r Efengyl i Fro'r Eco. Penodwyd Andrew Settatee yn Weithiwr Ieuentid cyntaf yr elusen newydd, a bu gyda ni o fis Hydref 2008 hyd ddiwedd Chwefror eleni. Dros y tair blynedd olaf y bu gyda ni buom yn cydweithio ag elusen Trobwynt yn Llŷn ac Eifonydd, gydag Andrew'n gwasanaethu yn y ddau gylch.

Gwerthfawrogwyd gwaith Andrew yn ein plith yn fawr iawn, ac yr oedd Ymddiriedolwyr Efe yn awyddus i benodi olynnydd iddo cyn gynted â phosibl. Yr oeddem yn ddiolchgar am y cydweithio â Trobwynt a oedd wedi ein galluogi i barhau i gynnal swydd lawn amser hyd eleni. Ac o ddeall na fyddai modd parhau'r trefniant hwnnw, ystyriwyd penodi gweithiwr rhan amser. Ond wedi cyfnod o weddio a thrafod, agorwyd dau ddrws newydd a fyddai'n ein galluogi i barhau i gynnal swydd lawn amser trwy gydweithio ag eglwys y Bedyddwyr yng Nghaersalem, Caernarfon a Scripture Union. Yr oedd Caersalem eisoes yn cefnogi gwaith Efe, ac yr oedd Efe yn Aelod Cysylltiol o Scripture Union ers sawl blwyddyn. Felly, ymestyn cysylltiadau a oedd yn bodoli eisoes a wnaed wrth gytuno i benodi gweithiwr ar y cyd am gyfnod o dair blynedd.

Llawenydd mawr i bawb ohonom oedd ein bod erbyn canol Gorffennaf wedi llwyddo i benodi Catrin Hampton i'r swydd newydd. Magwyd Catrin yn Llansannan; mae'n briod â Corey ac wedi bod yn byw yng Nghaernarfon ers yn agos i ddwy flynedd. Yn ei swydd newydd bydd yn gwasanaethu Caersalem am ddiwrnod a hanner yr

wythnos ac yn datblygu Cenhadaeth trwy Chwaraeon gyda Scripture Union am ddiwrnod arall. Bydd yn treulio gweddill ei hwythnos waith gyda Chynllun Efe.

Daeth Catrin i'w swydd ddechrau mis Medi, a buom yn edrych ymlaen yn eiddgar i'w chroesawu'n swyddogol yn yr Oedfa Gomisiynu. Cafwyd oedfa fendithiol wrth i ni ddiolch i Dduw am yr Efengyl ac am iddo alw Catrin i'n plith, ac yr oedd yr oedfa yn sicr yn anogaeth i bawb ohonom i weddio dros Catrin a thros y gwaith. Roedd yr addoliad yng ngofal Susan Williams ac aelodau o'r band sy'n arwain yr addoliad yng nghapel Caersalem. Cafwyd hanes sefydlu'r bartneriaeth newydd gan y Parchg John Pritchard ar ran Cynllun Efe, y Parchg Rhys Llwyd ar ran Caersalem a John Settatee ar ran Scripture Union. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan y Parchg Carol Roberts. Wedi i Catrin rannu gair o brofiad, arweiniwyd y Comisiynu gan y Parchg Marcus Robinson, a gweddiwyd dros Catrin a'r gwaith gan Andrew Settatee. Cafwyd neges onest a grymus gan dad Catrin, y Parchg Meirion Morris cyn i'r band ein harwain yn yr addoliad i gloi'r oedfa. Mr Gareth Jones a Mrs Falmai Pritchard oedd yr organyddion.

Cyflwynodd Miss Dilys Mai Roberts flodau i Catrin fel arwydd o'n croeso ac i Susan fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i holl ymdrech i barhau'r gwaith ysgolion y bu Andrew yn ei wneud fel Gweithiwr Efe cyn iddo symud i'w swydd newydd ddechrau mis Mawrth.

Wedi'r oedfa, cafwyd cyfle i fwynhau'r lluniaeth arbennig oedd wedi ei baratoi gan aelodau Capel Coch ar gyfer pawb; ac yr oedd yn braf iawn gweld cymaint o bobl wedi aros i wleda a sgwrsio. Yr oedd yn gyfle arbennig i gyfarfod â ffrindiau hen a newydd wrth i ni fentro ar lwybr newydd o gydweithio yng ngwasanaeth yr Efengyl.

Edrychwn ymlaen at gael cydweithio â Catrin dros y tair blynedd nesaf.



POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Ebst- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWTYA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST

MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574



Disgyblion blwyddyn 6 o ysgol Waunfawr yn cynnal gwasanaeth o flaen y gofologfn ac yn gosod torch o bopis yno i gofio am y rhyfeloedd a fu ac yn gobeithio am heddwch yn y byd.

Daeth nifer dda o bentrefwyr i wrando ar neges y plant.

Ysgol Gynradd

Nosweithiau Rhieni

Tymor yr Hydref Braf yw cael datgan bod bron pob un rhiant wedi mynychu y nosweithiau rhieni y tymor hwn.

Cyfeillion yr Ysgol Diolch i'r gwirfoddolwyr selog o rieni sy'n dod i gefnogi ein hymgyrch gyda Ras Eryri ar ddydd Sadwrn cynta'r gwyliau. Hoffai aelodau y Pwyllgor Rhieni ddiolch i'r rhai a gefnogodd y Noson Rasus nos Sadwrn diwethaf. Gwnaed elw o £500. Diolch yn arbennig i Tecwyn, Graham a Carmen am drefnu'r noson.

Llongyfarchiadau mawr i'r Tim Rygbi am ennill Tarian Twrnamaint Rygbi Morgan Parry yn y Morfa yng Nghaernarfon cyn yr hanner tymor. Llongyfarchiadau hefyd i dîm Pêl-rwyd Ysgolion Arfon ddiwedd y mis. Da iawn pawb! Diolch i Mr M. Downey a Mrs H. Williams am hyfforddi.

Yr un modd cared longyfarch Ellie bl.6, Cadi ac Erin bl.4 a Haf bl.3 ar eu llwyddiant gyda Dawnsywyr Karen Pritchard yn Blackpool yn ddiweddar yng nghystadleuaeth Cheerdance UK. Daeth Cadi yn gyntaf yn y gystadleuaeth dawnsio disgo unigol, Ellie ei chwaer yn drydydd ac Erin a Haf yn 2il mewn cystadleuaeth tîm disgo. Da iawn chi, genod!

Ysgol Brynrefail Bu plant blwyddyn 6 ar ymweliad yn Ysgol Brynrefail ddydd Mercher, Tachwedd 15fed. Roedd pob un ohonynt wedi mwynhau y profiad yn fawr

ac yn edrych ymlaen i'w hymweliad nesaf yn nhymor yr haf.

Gwasanaeth Dydd y Cofio Diolch i ddisgyblion blwyddyn 6 am gynnal gwasanaeth dydd y cofio wrth y Gofeb fore dydd Gwener, Tachwedd 10fed. Diolch hefyd i rai o drigolion y pentref a ymunodd gyda ni.

Diolchiadau Hoffai disgyblion Dosbarth yr Wyddfa a Dosbarth Cefn Du ddiolch o waelod calon i Mrs Catherine Jones a Mrs Pat Parry am ddod atom i'r ysgol i hel atgofion am adeg y rhyfel yn y pentref. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau yn fawr. Hoffem hefyd ddiolch i Mrs Susan Williams a Mrs Catrin Ruth Hampton, Gweithiwr Plant Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun Efe, am gynnal dau wasanaeth gyda'r Adran Iau yn ystod y tymor.

Dymuniadau Gorau Hoffem ddymuno'n dda i Mrs Anne Clark sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei chlun. Dymunwn wellhad buan iddi. Yr un modd hoffem estyn croeso cynnes i Mrs Caryl Owen a fydd yn gymhorthydd dros gyfnod ei habsenoldeb.

Digwyddiadau i'w cadw mewn cof

* Byddwn yn cefnogi Plant Mewn Angen Tachwedd 17

* Cynhelir Cyngerdd Band Arfon nos Fercher, Tachwedd 22

* Cynhelir Miri Carolau yn yr Antur nos Wener, Rhagfyr 1

* Bydd y plant yn canu o amgylch coeden Nadolig y pentref nos Fawrth, Rhagfyr 5

* Cynhelir Ffair Nadolig yr ysgol nos Fercher, Rhagfyr 13

* Cynhelir ein Cinio Nadolig dydd Iau, Rhagfyr 14

* Cynhelir ein Sioeau Nadolig bnawn a nos Fawrth, Rhagfyr 19 a phnawn a nos Fercher, Rhagfyr 20

* Bydd plant y Babanod yn mynd i'r Antur i gael brecwast gyda Siôn Corn fore dydd Iau a Gwener, Rhagfyr 21 a 22

* Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, Rhagfyr 22.

Williams Gwilym Owen, Fferm Bodhyfryd,

Waunfawr Dymuna Mair a'r teulu estyn diolch arbennig am y caredigrwydd, y rhoddion ariannol a phob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd ar golli gŵr a thad arbennig. Bydd y £2,000 a gasglwyd er cof am Gwilym yn cael ei rannu er budd Meddygfa Waunfawr a Dementia UK. Diolch i'r Parchedig Gwenda Richards, Mr Norman Williams a'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd am eu geiriau caredig yn y gwasanaeth ac i Mrs Catherine Jones, yr organyddes. Hoffem ddiolch yn ddiffuant i Bryn Seiont Newydd ac i dîm Meddygfa Waunfawr am eu gofal proffesiynol, ac i Pritchard a Griffiths am eu trefniadau urddasol a thrylwyr.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Hydref yw: £30: Mr Gareth Jones, Glyn Ceris; £20: Mr Emrys Hughes, Treflan Isaf; £10: Mrs Cadi Jones, Nant.

Hysbysfwrdd y Pentref Cofiwch wneud defnydd o'r hysbysfwrdd sydd wedi ei leoli o flaen y Ganolfan. Gallwch hysbysebu eich gweithgareddau trwy roi poster i fyny. Cysylltwch efo

John ac Irene, Pant Teg (01286 650545)

Diolch Hoffai Meddygon a holl staff Meddygfa Waunfawr ddiolch i'n cleifion a'n ffrindiau oll am y gefnogaeth ddi-bendraw yn apelio am Feddygfa newydd yn Waunfawr. Mae llawer o sylw wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf o'r pwysau echrydus ar ein gwasanaethau oherwydd prinder lle yn ein meddygfa bresennol.


Gallwn gyhoeddi'n falch ein bod rwan wedi cael sicrwydd gan y Cynulliad y bydd y prosiect yma yn mynd ymlaen gan obeithio y bydd Meddygfa pwrpasol newydd sbon yn y pentref i wasanaethu ein hardal practis erbyn 2021.

Yn y cyfamser byddwn yn dal ati i gynnal ein gwasanaethau hyd eithaf ein gallu mewn lle reit gyfyng.

Diolch o waelod calon i bawb.

Diffibiwlator Nos Fwrth, Rhagfyr Sed, am 6.30 bydd y Doctoriaid Esyllt Llwyd a Huw Gwilym yn goleuo'r goeden Nadolig o flaen y Ganolfan. I ddilyn byddant yn rhoi sgwrs FER am werth peiriant diffibiwlator yn y gymuned. Mae peiriannau i'w cael yn y feddygfa ond o 6.00 o'r gloch yr hwyr tan 9.00 p'r gloch y bore, bob penwythnos a gwyliau banc does dim offer ar gael yn y gymuned petae rhywun yn dioddef. Mae'r Cyngor Cymuned wedi penderfynu y buasai'n fanteisiol cael peiriannau o'r fath yn Waunfawr a Chaeathro. Bydd cyfle i bawb gael hyfforddiant AM DDIM ar y ffordd gywir o ddefnyddio'r diffibiwlator yn nes ymlaen

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



Parhad WAUNFAWR

ond, yn gyntaf, mae'n rhaid codi arian i brynu'r offer.

Yn y cyfarfod byddwn yn agor cronfa arbennig a bydd cyfle i chi gyfrannu iddo, bydd y Clwb Ieuentid yn paratoi paned, diod, bisgedan, mins pei a bydd yr elw yn mynd tuag at y gronfa.

Bydd gofyn i BOB mudiad, cymdeithas a chlwb drefnu gweithgaredd i godi arian tuag at hyn yn y dyfodol.

Yn dilyn y cyflwyniad gan y meddygon byddwn yn cael noson gymdeithsol i ddathlu'r Nadolig.

Merched y Wawr Nos Iau, Hydref 26, cawsom y pleser o groesawu Miss Eirian Pritchard o Rosbodrual i gyflwyno crefftau'r Nadolig. Bydd llawer yn adnabod Eirian fel cyn-brifathrawes Ysgol Bontnewydd ac un hynod ddawnus â'i llaw a feithrinodd ddoniau cenedlaethau o blant yr ysgol ym maes celf a chrefft nes bod yr ysgol yn adnabyddus trwy Gymru am ei llwyddiant yng nghystadlaethau celf a chrefft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Felly roedd hen edrych ymlen at y noson ac ni'n siomwyd. Roedd Eirian wedi dod â llwyth o grefftau bendigedig efo hi ac fe'n tywysodd yn frwdfrydig ond gyda esboniadau hollol eglur trwy'r broses o wneud pob un, nes bod hyd yn oed y rhai ohonom heb unrhyw ddoniau ymarferol yn dechrau meddwl efallai y gallem roi cynnig ar ambell beth. Noson ddifyr iawn yn wir ac rydym yn ddiolchgar iawn i Eirian. Diolchwyd iddi yn briodol iawn gan Pat Parry, crefftwaig ddawnus arall. Diolch i Bethan a Heulwen Jones am roi'r raffl a gweini'r te.

Nos Iau, Tachwedd 30, bydd aelodau'r gangen yn mwynhau swper Nadolig yng Ngwesty Bron Menai, Caernarfon, a byddwn yn ailymgynnull yn y flwyddyn newydd ar nos Iau, Ionawr 25 i glwyedd sgwrs gan John Grisdale o Dim Achub Mynydd Llanberis. Croeso i aelodau newydd.

Ary Teledu Roedd darllen am lwyddiannau Bronwen Jenkins, sy'n byw yma yn y Waun, yn ennill Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd i Ferched dan 25 mlwydd oed ddwy

waith yn destun edmygedd. Nos Fercher, Hydref 25, roedd Bronwen ar y rhaglen deledu Heno o Galeri, Caernarfon, yn sgwrsio gyda chyflwynwyr y rhaglen am ei diddordeb mewn rhedeg mynyddoedd ac yn dweud ei bod wrth ei bodd yn byw yn Waunfawr gyda'r mynyddoedd o'i hamgylch. Llongyfarchiadau i ti, Bronwen. Dymunwn bob llwyddiant i ti yn dy yrfa coleg ac hefyd yn dy ddiddordeb o redeg mynydd. Diolch i ti am roi pentref Waunfawr ar y map.

Rhedeg Marathon Eryri Rhaid llongyfarch Rhian, Gorwel y Môr; Efan, Stad Glyn Afon; Gwyndaf (Teras y Gors gynt); Huw Gwilym (Llidiart Wengynt) a Lindon (Ceunant) am eu menter yn cymryd rhan ym Marathon Eryri a llwyddo i gwblhau'r her.

Rwy'n ymddiheuro os oedd rhywrai eraill o'r penref wedi rhedeg ac heb gael eu henwi a'u llongyfarch.

Tim Hoci Merched Caernarfon Roedd dipyn o hanes a llun o'r merched sy'n aelodau o Glwb Hoci Caernarfon yn rhifyn mis Tachwedd o'r Eco a Cerys, Nant y Mynydd, yn gwenu'n hapus. Yn anffodus mae Cerys wedi anafu ei phen glin ac yn siomedig iawn na fedr gymryd rhan yn y gemau ar hyn o bryd. Brysia wella, Cerys.

Dyweddiad Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Zoe a Siôn, Sŵn y Gwynt, Stad Bod Hyfryd ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar.

Dathu Pen-blwydd Arbennig Yn ystod y mis bu Nia Brown, 2 Bryn Golau, a Tomos Morgan, Cartrefle, yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed ac mi roedd yna ddathlu! Hefyd bu Dafydd Lloyd, Gwastadfaes, yn dathlu cyrraedd ei un ar hugain mlwydd oed. Llongyfarchiadau i'r tri ohonoch a phob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Baban Bach Newydd Ganwyd mab bach, Ioan, i Liam ac Amanda, Gwylfa, brawd bach i Osian, Lowri a Libby. Mae Iona yn ŵyr i Angie ac Eilian, Fferm Cae Main. Bedydd Brynhawn Sul, Hydref 29, yn Eglwys Betws Garmon, gyda'r Rheithor Roger



Donaldson yn gweinyddu cynhaliwyd gwasanaeth bedydd Cali Jane, merch fach Cara ac Alex, 1 Cefn Min y Grug. Roedd taid Tegid, nain Sam a Cai a'i deulu bach wedi teithio o'r Alban ar gyfer yr achlysur arbennig.

Adref o'r Ysbyty Rydym yn falch iawn o weld Cadi Jones, Nant; Annwen Charge, Llifon, Teras Glyn Afon ac Alison Rowlands, Arfon House, y gwella wedi iddynt gael triniaeth a gofal yn Ysbyty Gwynedd.

Hefyd mae Ann Clark, 2 Stad Pant Waen, yn gwella wedi iddi dderbyn clun newydd yn yr ysbyty.

Mae'n dda gweld Delyth, Stad Llys y Waun, yn gwella wedi iddi dderbyn triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl.

Mae'n dda hefyd gweld Bronwen Jones, Dôl Meini, yn gwella wedi iddi gael anffawd a thorri ei braich yn eitha drwg. Cymerwch ofal ohonoch eich hunain a daliwch i wella.

Croesos'n ôl i fyw i'r Waun i Mathew a Nia Gossett. Bu'r teulu yn aros yn Rhosgadfan gyda taid a nain am dros flwyddyn tra roedd eu cartref newydd yn cael ei adeiladu.

Graddio Llongyfarchiadau

i Annwen, Stad Llys y Waun, ar ennill Gradd Meistr gyda Rhagoriaeth yng nghwrs ymchwil Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor. Dymuniadau da iti i'r dyfodol, Annwen.

Profedigaeth Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Cartrefle yn eu profedigaeth o golli brawd Kevin, brawd yng nghyfraith Olwen ac ewythr i Tomos a Cai.

Daeth y brofedigaeth o golli ei thad i ran Norma, Llecyn Clyd, tad yng nghyfraith Wali a taid a hen daid Jacqueline a Paul a'u teuluoedd.

Daeth y brofedigaeth o golli mam i ran Gill Brown, Gwelfor, mam yng nghyfraith Duncan a nain hoff Beca a'r plant.

Cyfarchion yr Ŵyl Dymuna Mrs Margaret Owen a Nefyl, Bryn Gwylan, anfon cyfarchion tymor y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i'w teulu a'u ffrindiau oll.

Dymuna Treflyn ac Anne, Treforfan, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cymdogion a'u ffrindiau oll. Ni fyddant yn anfon cardiau eleni ond yn rhoi rhodd i Gylch Meithrin y pentref.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Rhagfyr

3: Parch Angharad Roberts, Trefor

10: I'w drefnu

17: Mr Dafydd Iwan

24: Parch Harri Parri

31: Dim Oedfa

Dalier Sylw

Bydd yr hysbysebion a'r newyddion ar gyfer y rhifyn nesaf yn mynd i'r wasg ar Ragfyr 3 ac yn dod o'r wasg ar Ragfyr 15.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned
Waunfawr

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED
WAUNFAWR NOS FERCHER 06.09.2017 AM 7.15 YR
HWYR, YN FESTRI CAPEL Y WAUN, WAUNFAWR.

Presennol – Cadi Jones (Cadeirydd), Edgar Owen, Liz Daniels,
Sali Burns, Erddin Llwyd, Delyth Jones, Iwan Davies, Shoned
Rees Griffith (cofnodi)

Ymddiheuriadau – Eurig Wyn, Cain Thomas, Doug Jones, Menna
Jones,

Datganiad Buddiant - Dim

Derbyn Cofnodion 26.07.2017 – Cadarnhawyd fod cofnodion y
cyfarfod yn rhai cywir.

Aelodau Cyngor Cymuned – angen penodi Is-Gadeirydd.

Materion yn codi o'r Cofnodion:

Materion Caeathro:

1. Ffordd Osgoi Bontnewydd –Cwmni Jones Bros yn cynnal
diwrnodau agored yn lleol i hysbysebu am weithwyr. Dyddiad
cychwyn ar hyn o bryd Hydref 2018

2. Mainc Caeathro – Cyng SB yn mynd i drefnu i gael peintio y
fainc.

3. Hen ffordd Caeathro i Bontnewydd – Cyng EO mewn
trafodaethau â Chyngor Gwynedd.

4. Biniau Baw Ci – angen holi i gael mwy o finiau.

Materion Waunfawr:

1. Biniau Baw Ci – Wedi derbyn ymateb CG, ond aros i'r biniau
gael eu gosod.

2. Tacluso Pentref – Bu i griw bychan o'r Cyngor Cymuned a rhai
o blant y pentref

gyfarfod bore dydd Mawrth, 31 o Hydref, i gasglu sbwriel o
amgylch y Ganolfan.

Diolch yn fawr i bawb am eu cymorth, bu i ni gasglu 9 llond bag
bin o sbwriel. Mi wnawn drefu dyddiad eto ar gyfer y gwanwyn.

3. Maes Parcio ger Ael y Bryn - gwaith i gael ei wneud i'r maes
parcio gan CCG.

4. Les tir tu ôl i'r Ganolfan – cais grant loteri ar gyfer creu trac
beics wedi ei wrthod. Edrych ar syniadau eraill.

5. Arwyddion cyflymder (fflachio) – wedi derbyn prisiau ar gyfer
y golau. Mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â
chyflymder traffic drwy'r pentref. Mewn trafodaethau â Chyngor
Gwynedd i newid cyflymder traffic wrth yr ysgol i 20mya.

Gerddi Bach – Grwp Cynefin yn y broses o fynd allan i dendr ar
gyfer y gwaith adeiladu.

Safle Glyn Rhonwy –Dim mwy i'w adrodd ar hyn o bryd.

Archwiliad Allanol - Wedi derbyn cymeradwyaeth yr archwiliad.
Adroddiadau

1.Lloches Bws - Gwaith o dacluso'r maes parcio a torri unrhyw
or-dyfiant yn y maes parcio wedi ei gwblhau. Wedi archebu sedd
newydd i'r lloches bws yn Croes y Waun wedi iddi gael ei difrodi.

2.Y Fynwent - Meinciau y fynwent yn y broses o gael eu
hadnewyddu a gosod arwydd ar y cwt i gadw allan.

c. Llwybrau Cyhoeddus – Dim i'w adrodd.

Materion Cynllunio - Dim i'w adrodd.



**Nadolig
Llawen
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**

Oddiwrth
BAWB yn
**DMM
LLANBERIS**

www.dmmwales.com



*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl
gwsmeriaid
oddi wrth bawb ym*

**menter
fachwen**

(01286) 872014

ECO'r

Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned
Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y 3ydd Hydref 2017

Cyfetholwyd Emma Chappell fel cynghorydd cymunedol yn Neiniolen a Martin Davies yn gynghorydd Cymunedol ym Mrynrefail.

2.Datgan buddiant – Derbyniwyd Ffurflen gan bawb oedd yn bresennol i gyd yn datgan buddiant o wahanol fudiadau ar Eitem 11 o'r agenda: Ceisiadau Ariannol i Fudiadau

3. Cofnodion Cyfarfod Sed Fedi 2017

Derbyniwyd y Cofnodion yn gywir.

4. Materion o'r cofnodion

Gwasanaeth Llyfrgell Deiniolen – Derbyniwyd taflenni gyda gwybodaeth amser y gwasanaeth ayyb. Y clerc i'w rhannu o amgylch y pentref a'r ysgol.

Croesfan King Arthur - Derbyniwyd ebyst yn cadarnhau fod y Gwaith I beintio llinellau dwbwl wedi ei gynnwys mewn pecyn i gontractwyr, ond nid oes dyddiad wedi ei benodi ar ei gyfer.

5. Gohebiaeth a materion eraill

Llywodreuthwyr Cymunedol - Derbyniwyd llythyr a ffurflenni yn dilyn yr etholiadau i benodi cynrychiolydd o'r cyngor cymuned ar Gyrrff Llywodreuthol yr Ysgolion Cynradd a hynny am y 4 blynedd nesaf. Enwebwyd:

Ysgol Gynradd Bethel – Richard Ll. Jones

Ysgol Gymuned Penisarwaun – Phyllis Ellis

Ysgol Gynradd Rhiwlas – Rhian Evans-Hill

Ysgol Gwaun Gynfi –

6. Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Tir Gyferbyn a Stad Rhoslan, Bethel – Codi 7 Ty a Mynedfa Newydd.

Tros y Waen, Lon Castell – Tystysgrif Cyfreithloni ar gyfer gosod 45 Carafan Teithiol a 1 carafan statig.

Gorswen Brynrefail – Cais amlinellol I godi 8 Ty.

Cefn Gwyn, Bethel – Adeiladu anedd ar gyfer gweithiwr amaethyddol.

1 Bro Rhiwen, Rhiwlas – Codi estyniad llawr cyntaf yn y cefn.

7. Adroddiad Angen am Dai

Yn dilyn cael amser i ddarllen y ddogfen a gyflwynwyd gan Grŵp Cynefin, y cam nesaf fydd cynnal diwrnod agored yn yr ardal. Penderfynwyd gofyn i'r sefydliad gynnal sesiwn yn Y Caban ym Mrynrefail

8. Cyfrifon

Cyflwynodd y clerc tanlenni ar dderbyniadau a gwariant y cyngor hyd yn hyn. Cyflwynwyd ffurflen monitor y gyllideb yn erbyn y gwariant, er mwyn cydymffurfio a rheolau ariannol llywodreuthol. Cafwyd cyfle i drafod, ond nid oedd unrhyw gwestiwn yn codi ar y sefyllfa.

Gwnaed sylw fod materion a gofynion y gwaith yma yn dwyshau a cynyddu bob blwyddyn o safbwynt y gofynion a diolchwyd i'r clerc am y gwaith trylwyr sydd yn cael ei wneud i sicrhau ein bod yn cydymffurfio a rheolau a deddf archwiliadau Llywodraeth Leol.

Derbyniwyd y fantolen yn gywir:

9. Cysgodfannau Bws

Yn dilyn cais gan y cynghorwyr Hefin Williams a Rhian Evans Hill y llynedd ac eto eleni am gysgodfan bws yn Rhiwlas, gofynwyd i'r clerc holi am brisiau. Gwnaethpwyd hynny, ac mae yna amcangyfrif wedi dod I law am gysgodfan ail law gyda pris gosod yn ychwanegol. Mae Cysgodfan newydd sbon yn costio yn agos i £4000 a gosod. Penderfynwyd gosod os posib cysgodfan ail law yn y lle mwyaf addas i'w gosod.

10.Cofrestr Asedau:

Lluniwyd Cofrestr Asedau i gydymffurfio a sylwadau a gofynion yr Archwiliad Allanol

11.Cofrestr Buddiannau Aelodau:

Mae rhan fwyaf erbyn hyn wedi datgan rhestr Buddiant a diddordebau i'r clerc. Y clerc i lunio cofrestr a'i gyrru i'r wefan er mwyn cadw i reolau deddf Llywodraeth Leol

12. O Gwmpas y Bwrdd

Rhiwlas – Ysgoldy. Mae dŵr yn llifo i lawr y lôn yn dilyn Gwaith gan

gwmni yn yr ardal yn ddiweddar.

Penisarwaun – LLwybr 93 o Penisarwaun i Waen a Cerrig Gwynion, wedi cau gyda dŵr ac mae angen llnau ffosydd

Falcon Force – Rydym yn hynod o falch yn llwyddiant y Tim draw yn Malaysia.

Llinellau Dwbl – Pwy sy'n gyfrifol am geir sydd yn parcio yn anghyfreithlon ar linellau dwbl. Llythyr i'r adran yn Gaernarfon.

Deiniolen – Cais i sicrhau fod gwteri yn cael eu llnau yn rheolaidd yn ystod y gaeaf i arbed llifogydd.

Atgof ar Gan – Cyfeiriwyd at sesiynnau fydd yn cael eu cynnal i oedolion hŷn am ddim dan y teitl Atgof ar Gan yn Nhy Elidir. Mwy o wybodaeth gan eich cynghorydd lleol.

Bethel – Gordyfiant ar gorneli lonydd yn benodol, Tre Gôf a Hen Eglwys Bethel.

Ceisiadau Ariannol:

Eleni daeth 22 o geisiadau i law. Fel gwyddai llawer mae gofynion ariannol ar Cyngorau Cymuned yn cynyddu yn flynyddol, ac yn fwy eleni oherwydd toriadau o fewn y cyngor sir. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn teimlo dyletswydd a phwysigrwydd o gyfranu trwy rodd ariannol yn flynyddol. Daeth ambell i gais i law oedd wedi derbyn arian gan y cyngor llynedd, ond nid oedd yn ymddangos fel derbyniad ar fantolen ariannol. Ambell un arall heb fantolen gywir ac ddim yn dangos balansau a llawer un heb ei archwilio. Mae'r cyngor yn bwriadu rhoi llythyr at ei gilydd erbyn y flwyddyn nesaf o ganllawiau y disgwylir ei ddilyn ar fantolen ariannol unrhyw fudiad.

Daeth 1 cais arbennig i law, lle bu cryn drafod yn ei gylch. ac yn dilyn y trafodaeth ar y ceisiadau, bu'r mudiadau yma yn llwyddianus:

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen	£300
Eisteddfod Undebol Penisarwaun	£300
Eisteddfod Bentref Bethel	£200
Pwyllgor Neuadd Penisarwaun	£300
Neuadd Bentref Rhiwlas	£300
Cymdeithas Lenyddol Bethel	£50
Ysgol Feithrin, Deiniolen	£150
Clwb Snwcer Deiniolen	£100
Clwb Pel droed, Bethel	£1000
Grŵp Tennis Bwrdd Rhiwlas	£100
Bysedd Bach Prysur	£150
Clwb Rhiwen	£150
Clwb Pensiynwyr Penisarwaun	£150
Cyfraniad tuag at Hysbysfwrdd Rhiwlas	£100
Seindorf Arian Deiniolen	£400
LLais Ogwan	£100
Eco'r Wyddfa	£400
Ffermwyr Ifanc	£150
Clwb Bro Bethel	£150

KERFOOTS

EST 1874

136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT
Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth
I bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen
neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch
hamddenol.

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R
HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP,
NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw
gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

www.kerfoots.com

enquiries@kerfoots.com

Tel: 01766 512256

Ysgol

Penisarwaen

Aelod Newydd o'r staff –

Rydym yn falch iawn o groesawu Mr Wyn Griffith, sydd wedi ei benodi yn Athro ar CA2. Mae wedi bod yma fel athro llanw ers dechrau mis Medi ac wedi setlo'i lawr yn gyflym iawn yn ein plith.

Cynhaliwyd Ffair Grefftau Nadolig lwyddiannus iawn yn yr ysgol nos Iau, Tachwedd 16eg. Roedd y Neuadd werth ei gweld ac yn lliwgar iawn gyda'r holl stondinau. Gobeithir cynnal noson arall y flwyddyn nesaf. Diolch i Sharon a Staff yr ysgol am wneud y trefniadau. Roedd plant CA2 wedi paratoi stondin i werth nwyddau ar gyfer Apêl Nepal.

Croesawyd Catrin Hampton o Gynllun EFE a Susan Williams i'r ysgol fore Llun, Tachwedd 13eg, gynnal y Gwasanaeth boreol.

Treuliodd plant Bl 6 ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail dydd Iau, Tachwedd 16fed. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Dathlu Chwarter Canrif

Cafwyd pnawn agored llwyddiannus iawn yn yr ysgol brynhawn Sadwrn, Hydref 28ain i ddathlu pen-blwydd yr ysgol yn Chwarter Canrif. Diolch i gyfeillion yr ysgol am baratoi gwledd ar gyfer oddeutu cant o bobl a ymunodd gyda ni yn ystod y prynhawn i rannu atgofion am y gorffennol. Derbyniodd yr ysgol amryw o hen luniau o wahanol gyfnodau yn hanes y ddwy ysgol. Diolch i bawb am y gefnogaeth. Cafwyd pnawn pleserus iawn.

Cynhelir Gwasanaeth

Nadolig yr Ysgol yn Eglwys Santes Helen nos Fercher, Rhagfyr 20fed, am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cronfa Pensiynwyr

Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Hydref oedd Mr Dafydd Owen 7, Bryn Hyfryd gyda Rhif 53. Llongyfarchiadau.

Cinio Nadolig Cynhelir y cinio Nadolig eleni yng Ngwesty'r Royal Oak, Betws y Coed, dydd Sadwrn, Rhagfyr 9fed. Bydd y

bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol am 11:45 o'r gloch.

Dymuna Pwyllgor Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen ddatgan eu diolch am y swm o £150 a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Bydd yr arian o gymorth mawr i ni alluogi mynd â'r Pensiynwyr am ginio Nadolig eto eleni.

Gwellhad – Dymunwn wellhad buan i Michael Jones, Tyddyn Perthi, yn dilyn ei ddamwain yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion yn ogystal at Mrs Pat Jones, Tai Arthur, mae hithau wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty.

Cyfarchion Nadolig

– Dymuna Mrs Nannie Evans, 26 Bryn Tirion, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig.

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion gan Arnold a Pat Jones, Tai Arthur, gan na fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Ysgol Sul Bosra Derbyniwyd Cerdyn Diolch gan Paul Hummel, Rheolwr Banc Bwyd Caernarfon am y rhodd gareidig i Fanc Bwyd Caernarfon gan aelodau'r Ysgol Sul ac aelodau Eglwys Santes Helen. Bu'r 18 bag siopa o fwyd yn gymorth mawr i'r bobl leol sy'n wynebu caledi y dyddiau hyn.

Ym Mosra ar Sul y Cofio, cafwyd ennyd i gofio'r tri a syrthiodd yn yr Ail Ryfel Byd, sef Gruffydd J. Williams, Coed Parc ac Elfed Jones a Charles Jones, Tai Arthur, dau frawd i Arnold Jones, Waun. Gosodwyd tair croes ar y Gofeb gan Morgan, Siôn Dafydd a Megan Dafydd.

Am 10.30 ymunwyd ag aelodau Eglwys Santes Helen i gofio'r rhai a nodir ar y Gofgolofn wrth borth yr Eglwys a'r tri o Fosra. Dymunir diolch i aelodau'r Eglwys am gael ymuno yn y Gwasanaeth teimladwy yma. Diolchir i'r 18 o blant a gymerodd ran yn y Gwasanaeth ynghyd ag aelodau'r

Eglwys ac athrawon yr Ysgol Sul. Cafodd y plant gyfle i gymryd rhan drwy oleuo canhwyllau, cymryd rhan yn llafar a gosod croesau pren o gwmpas y Gofeb. Diolchir i'r rhieni am y gefnogaeth i'r amgylchiad blynyddol hwn. Mae'r plant yn llawn haeddu ymweliad â Siôn Corn ym mis Rhagfyr.

Pwyllgor Neuadd Gymuned

Cyhoeddir enillwyr Clwb Cant Tachwedd a Rhagfyr yn y rhifyn nesaf.

Ar nos Iau, Hydref 26ain cafwyd noson gymdeithasol i ddathlu pen-blwydd yr Ysgol Gymuned yn 25ain oed. Croesawyd pawb yn gynnes i'r dathlu gan Phyllis, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Gymuned. Cawsom adroddiad manwl ganddi am y dyfalbarhad gan bwyllgor bach ar y cychwyn yn yr 80au – pwyllgor Maes Chwarae ac Adloniant a fu'n trefnu wythnos o gemau, helfa drysor a'r Carnifal. Ar Fedi 10fed 1984 galwyd Cyfarfod Cyhoeddus a ffurfiwyd pwyllgor i geisio cael Neuadd i'r pentref. Roedd 30 yn bresennol a phawb yn gytûn fod angen mangre i gymdeithasu i'r ifanc a'r oedolion.

Ystyriwyd nifer o bosibiliadau, yn wir roedd gwir angen am Ysgol newydd a phenderfynwyd fod y Cynghorydd Pat Larsen i gychwyn trafod â'r Awdurdod Addysg. Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn gyfrifol am adeiladau ac un a fu o gymorth mawr i ni i lwyddo i gael Ysgol Gymuned oedd y diweddar Geraint Elis, Bethel. Y swm yr oedd angen i'r gymuned ei godi oedd traean o'r gost – sef £20,000. Aed ati yn ddiymdroi drwy nifer o ffyrdd i godi'r arian, casgliad o dŷ i dŷ, nosweithiau coffi dirifedi, rafflau, Ras Hwyaidd ar afon Seiont a hyd yn oed 'Budd Baw Buwch'. Ar ben hyn i gyd roedd angen arian ar gyfer dodrefnu, llestri, llwyfan, goleuadau a chadeiriau i'r Neuadd Gymuned. Llwyddwyd i sicrhau fod y Neuadd a'r Ystafell a'r Gegin Gymunedol yn barod ar gyfer yr agoriad ar Hydref 26ain

1992. Rydym o hyd yn gorfod cynnal gweithgareddau a Chlwb Cant ar gyfer rhent i'r Cyngor Sir am wres, goleuo, glanhau ac yswiriant.

I ddathlu Pen-blwydd Arian yr Ysgol Gymuned diolchir i'r Loteri Genedlaethol am yr arian i beintio'r Ysgol a'r Neuadd Gymuned a chael carpedi a llenni newydd. Rydym fel cymuned yn hynod falch o'n hyssgol a'r Neuadd Gymuned. Diolchodd Phyllis i bawb – yn aelodau'r Pwyllgor, yn bentrefwyr a ffrindiau a gefnogodd yr amrywiol weithgareddau. Mae ein dyled ninnau fel cymuned yn aruthrol i Phyllis, ein Cadeirydd brofiadol ac egniol am lywio'r pwyllgorau drwy'r blynyddoedd gan sicrhau oriau o gymdeithasu hwyliog a chyfeillgar.

Wedi' diolchiadau, cafwyd eitemau gan blant yr Ysgol, sef 'Cân Ysgol Tan y Coed', geiriau gan Rol Williams a 'Chân yr Ysgol Gymuned', gan Tony Elliot.

Cân yr Ysgol – Rol Williams (pennill olaf)

Pan fyddwn ni rhyw flwydd neu ddwy yn hŷn,
Yn byw ymhell o Gymru neu Mhenrhyn Llŷn,
Fe ddaw i'r cof ryw ddydd ar ysgafn droed
Un atgof fach o'r cyfnod yn Ysgol Tan y Coed.

Yr Ysgol Newydd – Tony Elliot (y 4ydd pennill)

Ac yn Gymraeg y dathlwn ninnau
Nes deffro'r bryniau gyda'n canullon,
Gan lawenhau mai iaith ein tadau
Fydd iaith ein chwarae yn yr Ysgol hon.

Hon yw ein hyssgol ni, a diolch yw ein cân.

Yna cafwyd gair gan Pat Larsen cyn torri'r deisen gyda chymorth dau aelod ieuangaf yr Ysgol, sef Leo a Noa. Bu cyfle wedyn i edrych ar yr Arddangosfeydd a'r mwynhad o gymdeithasu. Yn ôl y Pensaer, Dilwyn Grey Williams, a oedd yn bresennol, dyma un o'r ysgolion y mae'n hynod falch ohoni. Diolch iddo.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU **AMCANGYFRIF AM DDIM**

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

Arbenigwyr mewn ceir VW,
Audi, Seat, Skoda & Porsche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which?
Trusted trader

01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Car Service
For everything your car needs.



Criw Penisarwaun yn Mhen y Pas ym Marathon Eryri.

Eglwys Santes Helen

Diolchgarwch Hoffai swyddogion yr Eglwys ddiolch o galon i bawb a fynychodd y gwasanaeth Diolchgarwch bore dydd Sul, Hydref 15fed, Braf oedd gweld cynulleidfda dda yn bresennol, derbyniwyd yn ddiolchgar roddion o fwyd, ffrwythau a llysiau i Fanc Bwyd Caernarfon a Chanolfan di-gartref Bangor. Roedd llond tri ar bymtheg o fagiau yn cael eu dosbarthu iddynt, Diolch yn fawr am eich haelioni.

Er gwaethaf y storm nos lun fe gynhaliwyd Gosber Diolchgarwch gyda'r pregethwr gwadd, yr Hybarch Paul Davies, Archddiacon Bangor, a braf oedd gweld cynulleidfda dda yn bresennol ac i ddymuno yn dda i'r Archddiacon wrth iddo baratoi i adael esgobaeth Bangor i fywoliaeth newydd yn Surrey. Dioch iddo am ei wasanaeth a'i waith yma yn Mro Eryri.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd swper cynhaef a sgwrs ddifyr gan Mr Dafydd Roberts ar hanes Chwarel Dinorwig ddoe a heddiw, Diolchwyd iddo am y cyflwyniad.

Raffl Bro Eryri

Yn ystod y swper cynhaef fe dynwyd y raffl fawr, diolch i bawb a gefnogodd y raffl ac a gyfrannodd at y gwobrau, mae'r gwobrau wedi eu dosbarthu i'r enillwyr.



Pat Larsen, Llywydd Anrhydeddus Pwyllgor y Neuadd Gymuned, yn torri'r gacen i ddathlu Pen-blwydd Arian yr Ysgol.

Cist Amser



Pan agorwyd yr ysgol bresennol 25 mlynedd yn ôl paratowyd cist amser gan y disgyblion a oedd yma. Eu bwriad oedd rhoi blas o fywyd yr ysgol yn y 90au i ddisgyblion y dyfodol. Diolch i erthyglau mewn copïau o'r Eco o'r cyfnod daeth plant presenol yr ysgol i wybod am fodolaeth y gist ac, o ganlyniad, dadorchuddiwyd hi yn ystod wythnos y dathlaid. Bu cynnwrf a chyffro yn yr ysgol wrth chwilio amdani. Ynddi roedd amrywiaeth o luniau, fideo, copïau o Eco'r Wyddf, a phapurau newyddion lleol o'r cyfnod, cardiau, llythyrau, arian a stampiau. Roedd y fideo yn cynnwys clipiau ffilm o ddisgyblion wrth

eu gwaith yn y dosbarth ac ar yr iard yn 1992, y disgyblion yn canu cân a gyfansoddwyd i ddathlu agoriad yr ysgol newydd a chyfweliad â'r Pennaeth ar y pryd, sef Mr Robat Humphreys. Dangoswyd y fideo yn ystod y pnawn agored. Y mae'n fwriad gan yr ysgol ychwanegu tuag at gynnwys y gist eleni ac yna ei chladdu ar dir yr ysgol i'w chodi eto mewn chwarter canrif arall. Bydd y gist yn cael ei chladdu ar 12fed o Ionawr 2018, chwarter canrif union ers ei chuddio'r tro diwethaf. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.



Llwyddiant Ffotograffwr o Lanrug

Mae tri o luniau gan y ffotograffydd Gwynant Pierce o Lanrug wedi eu dewis i'w harddangos yn Arddangosfa Dingwall sy'n cael ei threfnu gan Glwb Camera Dingwall o'r Alban. Mae'r arddangosfa yn un o 19 sy'n rhan o'r "British Photographic Exhibitions" (BPE). Mae arddangosfeydd y BPE yn agored i unrhywun sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n pennu nifer o 'ragoriaethau' ymysg y ffotograffau. Mae ffotograffwr sy'n cael nifer o dderbyniadau am 'ragoriaeth' yn cael eu gwobrwyo efo tystysgrif a chael defnyddio BPE ar ol eu henwau.

Mae ei luniau hefyd wedi eu derbyn gan y "Welsh International Salon", sef arddangosfa ar-lein sy'n rhan o FIAP (Fédération Internationale de l'Art Photographique) sef fersiwn rhyngwladol o'r BPE. Ddiwedd Hydref roedd lluniau a dderbyniwyd gan y "Welsh International Salon" yn cael eu harddangos yn Craig y Don, Llandudno.

Mae'r llun a ddangosir – Dyfroedd Stormus – yn un o'r tri a dderbyniwyd i Arddangosfa Dingwall.

Chwaraeon

Symud positif

Bum yn hallt fy marn am weinyddiad a pherfformiad Clwb Criced Morgannwg yn ddiweddar. Nid wyf yn cytuno a'r gor-ddibynnu ar y chwaraewyr tramor cyfoes ar draul datblygu talentau cynhenid. Rwyf hefyd wedi cwestiynnu arweiniad Robert Croft fel prif hyfforddwr. Erbyn hyn mae 'seren ddoe', ac yn amlwg, chwaraewr mwyaf adloniadol y sir (gyda Viv Richards), sef Mathew Maynard, wedi dychwelyd – ond fel Mab Afradlon neu Fab Darogan? Mae gennyf o hyd amheuan a all y bartneriaeth o Croft a Maynard weithio. Dim ond un all arwain, ac mae dau styfnig a phenderfynol yma. Fel hyfforddwr batïo y cyflogir Maynard. Rwyf eisoes wedi dweud mai'r un bachgen ymosodol, hyderus – boed yn 16 oed ar gae Ty Newydd, neu'n 40 oed yn Lords – yw Mathew o hyd. Dyna sail ei llwyddiant, a chredaf fod chwaraewyr ifanc Morgannwg yn edrych ymlaen i weithio a dysgu dan ofal y 'Meistr Cymreig'.

Pel-droed Lleol

Bydd Llanberis a Llanrug yn fodlon iawn ar eu perfformiadau yn y gynghrair yn ystod y mis diwethaf. Braf yw gweld Llanberis yn drydydd a Llanrug, gyda gemau mewn llaw, yn bumed. Mae'n argoeli'n dda felly am dipyn o gem ddarbi i gynhesu'r gaeaf.

Nid felly yng Nghwpan Cookson. Bydd Llanberis yn anhapus o golli yn y rownd gyntaf draw yn Llandyrnog, sydd ar waelod yr adran. Gohiriwyd y gem rhwng Llangefni a Llanrug draw ar yr ynys. Mae gan hogia Eithin Duon dipyn o record yn y cwpan hwn. Dal i fod yn anwadal mae perfformiadau Waunfawr, a daeth siom yng Nghwpan Safeflue. Colli yn yr ail rownd fu'r hanes a hynny ar giciau o'r smotyn draw yn Llangoed.

Daeth eiliad hanesyddol i dim merched Bethel gan iddynt esgyn i frig Cynghrair Merched Gogledd Cymru. Mae'r enwau Gibbard a Midwinter yn prysur ennill eu plwy fel sgoriwyd cyson. Ond daeth taith Cwpan Cymru i ben pan gollwyd o 4 gol i 1 yn Llaneurgain.

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—


Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202


Siom – ond fflach o weledigaeth

Er mai colli oedd hanes ein timau cenedlaethol pel-droed a rygbi, roedd elfennau i’w cymeradwyo yn y ddau berfformiad. Yn y gem gyfeillgar-gystadleuol draw ym Mharis, cyfeiriodd llawer at ‘ddiwedd cyfnod’ ond dechreuad disglair i’r dyfodol. Mae’n siwr fod cyfnodau rhai fel King, Ledley ac efallai Ashley Williams yn dirwyn i ben ar y lefel hon. Mwy o broblem yw darganfod golgeidwad safonol. Mae fy nghyn-ddisgybl Wayne Hennessey yn dioddef o ddiffyg gemau yn y Palas yn amlwg. Mae’r cwpwrdd yn wag iawn yn y cyfeiriad hwn. Mae anafiadau cyson i Gareth Bale hefyd yn broblem, a thybed a welwn bellach, fel Giggs o’i flaen, gyfyngu ar nifer ei gemau i Gymru?

Ond gwelwyd fflach yr ifanc, ac yn sicr, obaith wrth ddatblygu sgiliau Woodburn, Brooks ac Ampadu. Y gwendid yma yw ble maent (ynghyd a’r talentog Harry Wilson) yn mynd i gael gemau. Yn amlwg maent o ran datblygiad yn uwch na lefel dan 21 a dan 23 Lerpwl a Chelsea. Rhaid iddynt gael gemau ar y lefel uwch. Mae rhai yn darogan y byddant yn symud ar fenthyl. Cawn weld. Problem arall yw a ddylid fod wedi chwarae’r tri i dim dan 21 Cymru a gollodd o 4-0 yn erbyn Bosnia yn Nantporth. Buaswn i yn hoffi eu gweld yn chwarae i’r tim dan 21 i geisio cael ein tim cenedlaethol i rowndiau terfynol Ewrop. Buasai yn sbardun i’n hieuenctid. Efallai mai’r her o ddatblygu y to ifanc fydd yr elfen bwysicaf i Chris Coleman fel rheolwr.

Roedd llawer i’w ganmol yn y gem rygbi yn erbyn Awstralia. Eto, gwelwyd chwaraewyr ifanc yn cael cyfle. Yn sicr gwelwyd Cymru yn chwarae gem gyflymach, ac roedd y ddau gais yn codi calon. Serch hynny, o draed a dwylo ifanc y daeth y camgymeriadau a arweiniodd at geisiadau Awstralia. Ysgol ddrud yw ysgol profiad.

Y gair pwysig ar lefel timau rhyngwladol yw datblygiad, a theimlaff fod cam bychan yn y cyfeiriad cywir wedi ei gymryd yr hydref hwn.



Llwyddiant Rasmus Cwn
Betws-Y-Coed a Niwbwrch i
Huw Owen Llanrug

ECO’r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwr



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Gwybodaeth yma
Twitter Facebook
Information here

Ras Sion Corn Santa Race
Go for it...or walk it!
Ewch amdani neu ewch am dro

Gafael Llaw
Yn cael arion i gefnogi plant o’r cancer
Raising money for children with cancer

Rhedeg trwy’r Castell
Run through the Castle
5k

17/12/2017
+ Ras Plant / Kids Race
Cychwyn / Start Ras y plant – 11.30
Ras Hwy / 5k – 12.00

Clwb Rygbi Caernarfon Rugby Club

I gofrestru a fwy o fanylion
To register and for more details
www.gafael-llaw.co.uk

Holl elw yn mynd at elusen
All Proceeds to charity
ward dewi
alder hey
clic sargent



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Chwaraeon



Llongyfarchiadau i 18 Lysgennad Gwynedd am drefniadau rasy plant eleni. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus gyda 88 o ddisgyblion wedi rhedeg. Roedd nifer helaeth o redwyr lleol yn mentro ar y cwrs o amgylch yr Wyddfa hefyd, ond yn wahanol i'r blynyddoedd diwethaf,

ddaeth dim un ohonynt yn agos i'r brig. Doedd Mathew Roberts, Llanberis ddim yn cystadlu, ond bu'n cadw cwmni i'w ffrind John Rowley ar ei feic. A John oedd yr aelod cyntaf o'r clwb rhedeg lleol i orffen y ras.

DATBLYGU CHWARAEWYR HOCI IFANC



Yn dilyn llwyddiant tîm merched Prydain yng Ngemau Olympaidd Rio de Janeiro yn 2016 mae'n sawl merch ifanc wedi eu hysbrydoli i ymuno â'r gêm. Braf felly yw croesawu dros 60 o ferched ifanc i'r ymarferion ieuentid Clwb Hoci Merched Caernarfon ar gae bob tywydd Ysgol Brynrefail pob nos Fercher. Eleni, am y tro cyntaf, mae cyfle i'r ieuentid chwarae mewn gemau cystadleuol y tu allan i'r ysgol gyda dyfodiad Cynghrair Datblygu Ieuentid Gogledd Cymru. Mae'r gemau hyn yn rhoi cyfle i'r merched ifanc chwarae mewn sefyllfaoedd cystadleuol yn erbyn chwaraewyr ifanc eraill dros Ogledd Cymru gan ddylanwadu a dysgu gan ei gilydd. Mae sawl un wedi dangos eu doniau gan symud o'r tîm ieuentid i'r tîm hŷn.

Mae llwyddiant y tîm hŷn yn parhau ers dechrau'r tymor gan ennill 4 allan o'r 5 gêm ddiwethaf, yn eistedd ar ben tabl ail adran y Gynghrair [pan aeth yr Eco i brint.] Mae croeso i unrhyw un ymuno gyda'r clwb sy'n ymarfer pob nos Fercher ar gae bob tywydd Ysgol Brynrefail, Llanrug. Ieuentid am 6.30, criw hŷn am 7.30. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â marged_3@hotmail.com 07796691515. Lluniau: Tîmau ieuentid yng Nghynghrair Datblygu Ieuentid.